
Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales



# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

## 2010-2011

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD · GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

Iechyd ar Waith · CYRRAEDD Y NOD · THE CORPORATE STANDARD · Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

**Pwy ydym ni...**

**Estyn yw'r Arolygiaeth dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Ein cenhadaeth yw cyflawni rhagoriaeth i bawb mewn dysgu yng Nghymru. Gwnawn hyn trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol o ansawdd uchel i Lywodraeth Cynulliad Cymru a dinasyddion Cymru.**

Rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, ond yn cael ein hariannu ganddi (adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998).

Ar 31 Mawrth 2011, roedd Estyn yn cyflogi 99 o aelodau staff parhaol, y mae 52 ohonynt yn Arolygwyr Ei Mawrhydi (AEMau). Hefyd, fe wnaethom ategu ein gallu arolygu mewnol trwy gyflogi 11 o secondeion yn ystod 2010-2011. Rydym hefyd yn caffael ac yn hyfforddi arolygwyr ychwanegol, arolygwyr cymheiriaid ac enwebeion sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd, i weithio fel rhan o dimau arolygu. Hefyd, mae Estyn yn cyflogi Cydysgrifenyddiaeth Arolygu ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Mae'r ysgrifenyddiaeth yn rheoli ac yn cyflwyno'r Rhaglen Arolygiaethau ar y Cyd, sef menter gydweithredol rhwng y pedwar prif gorff arolygu, archwilio ac adolygu yng Nghymru.

Hyd at ddiwedd tymor yr haf 2010, cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r arolygiadau o ysgolion a gynhelir gan sefydliadau ac arolygwyr annibynnol unigol dan gontract gan Estyn. Ar gyfer tymor yr hydref 2010 a gwanwyn 2011, newidiwyd y trefniadau hyn a chynhaliwyd 50% o'r arolygiadau o ysgolion naill ai'n uniongyrchol gan AEM neu gan arolygwyr ychwanegol a gyflogwyd yn uniongyrchol gan Estyn. Mae nifer fach iawn o arolygwyr ychwanegol wedi cyflawni agweddau ar waith arolwg ar ran Estyn hefyd.

Mae ein prif swyddfa wedi'i lleoli yn Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd. Hyd ddiwedd mis Rhagfyr 2010, roedd gennym swyddfa arall yn yr Wyddgrug, Gogledd Cymru, ond mae'r swyddfa hon wedi cau bellach.

Mae'r gair Estyn yn golygu 'cyrraedd', 'ymestyn' neu 'ehangu'.

## Beth rydym yn ei wneud...

Diben Estyn[1] yw arolygu ac adrodd ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru, gan gynnwys:

- i ba raddau y mae'r addysg a'r hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr ac yn cyfrannu at eu datblygiad a'u lles;
- y safonau a gyflawnir; ac
- ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth.

Mae pob darparwr addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn cael arolygiad craidd. Mae hwn yn ein galluogi i dargedu mwy o adnoddau at y darparwyr hynny sydd angen eu harolygu'n fanylach a lleihau'r angen i arolygu'r rhai sy'n perfformio'n gyson dda. Mae hunanarfarnu, gan ddefnyddio arweiniad Estyn, yn rhan allweddol o broses sicrhau ansawdd darparwyr sy'n nodi'u cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Gan ddefnyddio'r wybodaeth o adroddiadau hunanarfarnu fel man cychwyn, mae timau arolygu yn rhoi adborth ar y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr, ansawdd yr addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir ac ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth. Cynhelir y broses arolygu mewn partneriaeth rhwng Estyn a'r darparwr, ac mae ffocws cyffredinol ar fodloni anghenion dysgwyr a chodi safonau.

Rydym hefyd yn cyfrannu at ddatblygu polisi addysg a dysgu gydol oes yng Nghymru drwy ein hadroddiadau cylch gwaith, gan ddarparu cyngor o ansawdd uchel ar themâu a gytunir gyda Llywodraeth Cymru. Mae Estyn hefyd yn chwarae rhan weithredol mewn amrywiaeth o fforymau a gweithgorau polisi ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, ac mae'n cynnal amryw gynadleddau rheolaidd ar feysydd i'w gwella.

Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Estyn wedi meithrin perthynas waith agos iawn â chyrff arolygu, archwilio ac adolygu eraill yng Nghymru, ledled y DU a ledled y byd. Ym mis Medi 2010, cynhaliodd Estyn y Gynhadledd Ryngwladol Sefydlog i Arolygiaethau (SICI). Yn 2011, llofnododd AGGCC, Estyn, AGIC a SAC gytundeb strategol yn esbonio ein hymroddiad i gydweithio'n effeithiol, lle bo hynny'n briodol. Er ein bod wedi ceisio cydweithio a chydweithredu erioed, gwyddwn y gallwn wneud mwy gyda'n gilydd i gydlynu'r gwaith o gynllunio a chyflwyno ein rhaglenni gwaith unigol, rhannu gwybodaeth rhwng ein sefydliadau ac ychwanegu gwerth i'r gwaith a wnawn i wella ansawdd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

[1] Mae prif swyddogaethau Estyn wedi'u gosod yn Adran 20 Deddf Addysg 2005 ac Adrannau 75-78 Deddf Addysg a Sgiliau 2000.

**Yn 2010-2011, roedd Estyn yn gyfrifol am arolygu ac adrodd ar y canlynol:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd; a
- dysgu troseddwyr.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw cynnwys yr adroddiad hwn? | 1 |
| Rhagair | 2 |
| **Adran 1:  Adolygiad yn erbyn ein Cynllun Blynyddol** | 4 |
| Amcan 1:<br>Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru | 5 |
| Amcan 2:<br>Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru | 12 |
| Amcan 3:<br>Hyrwyddo lledaenu arfer orau wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru | 17 |
| Amcan 4:<br>Datblygu Estyn fel sefydliad ‘gwerth gorau’ ac fel ‘cyflogwr o ddewis’ | 23 |
| **Adran 2:  Cyfrifon blynyddol 2010-2011** | 30 |
| Sylwebaeth ar reolaeth | 31 |
| Adroddiad cyflogau | 39 |
| Datganiad o gyfrifoldebau’r swyddog cyfrifo | 45 |
| Datganiad ar reolaeth fewnol | 46 |
| Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 50 |
| Cyfrifon Blynyddol Estyn 2010-2011 | 52 |

**Beth yw cynnwys yr adroddiad hwn?**

Mae Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Estyn yn crynhoi ein cynnydd yn ystod y deuddeng mis diwethaf wrth i ni weithio tuag at ein blaenoriaeth strategol, sef codi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Yn benodol, rydym yn adrodd ar gynnydd yn erbyn ein pedwar amcan craidd, fel y nodir yn ein Cynllun Blynyddol 2010-2011, yn ogystal â darparu set lawn o'n cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2010-2011.  I gael rhagor o wybodaeth am Estyn, ewch i'n gwefan, www.estyn.gov.uk

## Rhagair

Croeso i Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Estyn, sy'n manylu ar yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol 2010-2011 yn Adran 1, ac yn rhoi set lawn o ddatganiadau ariannol yn Adran 2.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn o gyflawniad a her sylweddol i Estyn. Dechreuodd cylch newydd o arolygiadau ym mis Medi 2010, ar ôl dwy flynedd o baratoi ac ymgynghori. Yn ystod yr haf, gwnaethom hyfforddi ein holl arolygwyr ar y fframwaith arolygu cyffredin newydd ac, yn yr hydref, rhoesom y model arolygu newydd ar waith ar gyfer y sectorau addysg a hyfforddiant yng Nghymru, yn unol â'r cynllun.

Mae'n nodedig ein bod wedi gallu cyflawni'r addewidion a wnaethom i randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Rydym wedi rhoi mwy o bwyslais ar hunanarfarnu, cynnwys y dysgwr yn fwy mewn arolygu ac wedi cynnig mwy o gyfle am ddeialog broffesiynol rhwng ymarferwyr ac arolygwyr. Mae'r cyfnod rhybudd ar gyfer arolygiadau wedi'i leihau i bedair wythnos. Rydym wedi cynnal 50% o arolygiadau ysgol yn fewnol.

Mae'r broses o baratoi ar gyfer arolygiadau wedi'i symleiddio. Rydym wedi datblygu rôl newydd cydlynwyr arolygu, yn ogystal â chyflwyno cyfleusterau ar y we ar gyfer rhannu gwybodaeth a choladu canfyddiadau arolygiadau. Rydym wedi defnyddio meddalwedd rhaglen waith newydd i ddefnyddio arolygwyr yn fwy effeithlon. Ymgymerwyd â phob un o'r newidiadau hyn fel prosiectau a oedd yn rhan o'n Rhaglen Gweddnewid Estyn. Mae eu llwyddiant wedi arwain at hyder a sicrwydd newid ynghylch arolygu y tu mewn a thu allan i Estyn. Hefyd, mae rhai o'r arloesiadau a gyflwynwyd gennym - yr 'ystafell arolygu rithwir', yn benodol - wedi'u mabwysiadu gan arolygiaethau eraill yng Nghymru fel rhan o'n rhaglen cydweithio.

Mae'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant wedi ein herio i graffu ar wariant dros y tair blynedd nesaf a chynllunio i wneud arbedion. Rydym wedi gallu gwneud arbedion sylweddol hefyd wrth sicrhau y caiff ein dyletswyddau statudol eu hamddiffyn yn llawn. Nid yw'r angen i wneud arbedion wedi ein hatal rhag symud gwaith arwyddocaol ymlaen i hyrwyddo pob un o'n hamcanion strategol. Mae'r arolygon thematig yr ydym wedi ymgymryd â nhw wedi'u cysylltu'n agos â blaenoriaethau cenedlaethol, ac wedi'u croesawu gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Rydym wedi cefnogi cyflwyno trefniadau cydweithio mwy ffurfiol a systematig rhwng arolygiaethau Cymru. Daethpwyd i gytundeb strategol eleni rhwng Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru er budd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.


Hefyd, rydym wedi parhau i hyrwyddo'r gwaith o ledaenu arfer orau mewn cyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru, gan ddadansoddi a dehongli enghreifftiau o arfer orau a gasglwyd trwy ein gweithgareddau arolygu cylchol a thematig, a chyhoeddi deilliannau ar ein gwefan.

Mae cyhoeddi fy Adroddiad Blynyddol ar gynnydd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn ystod cyfnod cyfan chwe blynedd y cylch arolygu diwethaf wedi bod yn ddylanwadol mewn cychwyn a chyfrannu at drafodaethau cenedlaethol ynghylch cyflwr addysg yng Nghymru. Trafodwyd canfyddiadau'r adroddiad â'r Gweinidog, Leighton Andrews a'i swyddogion, ac maent wedi dylanwadu ar yr adroddiad gan Viv Thomas ar strwythur addysg yng Nghymru.

Ym mis Medi 2010, cynhaliom gynhadledd ryngwladol ar gyfer aelodau'r Gynhadledd Ryngwladol Sefydlog i Arolygiaethau i arddangos gwaith arolygu addysg a hyfforddiant Estyn yng Nghymru a dysgu o fethodolegau a phrosesau arolygiaethau eraill yn Ewrop. Roedd y gynhadledd hon yn llwyfan ragorol ar gyfer rhannu eich gwybodaeth a'n harbenigedd ar y cyd. O ganlyniad i'w llwyddiant, mae arolygwyr o nifer o wledydd wedi ymweld â ni a chafwyd rhai ceisiadau am gymorth o mor bell i ffwrdd â Zanzibar.

Bu hon yn flwyddyn bwysig yn y cefndir hefyd, wrth i'r holl staff helpu i hyrwyddo effeithlondeb Estyn fel "sefydliad gwerth gorau". Un o'r prif gyflawniadau ar ddechrau 2011 oedd cyflawni Safon Aur Buddsoddwyr Mewn Pobl, sef lefel a ddyfernir i ychydig iawn o sefydliadau. Dangoswyd ymgysylltiad cryf ar ran staff Estyn hefyd, yn y gyfran uchel ohonynt a ymatebodd yn gadarnhaol i arolwg pobl blynyddol y Gwasanaeth Sifil, a oedd yn meincnodi'n ffafriol yn erbyn cyfraddau ymateb adrannau eraill y Gwasanaeth Sifil. Rydym yn ymfalchïo yn y gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig a'r ffaith bod y gwasanaeth hwnnw'n gwbl ddwyieithog.

Hoffwn ddiolch i'r holl staff am gyfrannu at wneud y flwyddyn hon yn un o gyflawniad sylweddol i Estyn.



**Ann Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

15 Gorffennaf 2011

# Adran 1
# Adolygiad yn erbyn ein Cynllun Blynyddol

## Amcan 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 1 | **Cyflwyno fframwaith syml o drefniadau arolygu sy'n cynnwys cyfnodau rhybudd byrrach ac:**<br><br>• **sydd wedi'i lunio i fod yn fwy cymesur, gan ganolbwyntio ein hymdrechion lle byddant yn cael yr effaith fwyaf; ac**<br>• **sydd wedi'i seilio'n gadarn ar ddadansoddiad o hunanarfarniad y darparwr ac unrhyw drywyddau ymholi sy'n deillio o hyn a data arall ar berfformiad.** | • cynnal arolygiadau craidd mewn tua un o bob chwech o ddarparwyr; mae'r arolygiadau hyn yn dilyn trywyddau ymholi wedi'u seilio ar ddadansoddi hunanarfarniad y darparwr a data gan Lywodraeth Cymru;<br>• adnabod darparwyr sydd angen arolygiadau dilynol yn gymesur â'u hanghenion;<br>• yn y rhan fwyaf o sectorau, cyflwyno cyfnod rhybudd o bedair wythnos gwaith i ddarparwr, gan gynnwys arolygiadau o bartneriaethau (ac eithrio arolygiadau o awdurdodau lleol, lle mae'r cyfnod rhybudd yn 10 i 12 wythnos, ac arolygiadau o hyfforddiant athrawon, lle mae'r cyfnod rhybudd yn wyth wythnos);<br>• cyflwyno 'Ystafell Arolygu Rithwir' ar gyfer pob arolygiad i leihau'r baich biwrocrataidd ar ysgolion/darparwr, fel y gallant gyflwyno tystiolaeth cyn-arolygiad yn electronig;<br>• sefydlu carfan o gydlynwyr arolygu i gysylltu ag ysgolion/darparwyr mewn perthynas â'u harolygiadau ac i ymateb yn gyflym i unrhyw gwestiynau neu bryderon; ac<br>• o fis Medi 2010, arolygu pob agwedd ar addysg a hyfforddiant ôl-16 trwy un arolygiad (lle bo hynny'n ymarferol) yn hytrach na thrwy arolygiadau ar wahân o addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned. |
| 2 | **Cyflwyno lefelau gwell o weithgarwch arolygu 'dilynol' ar gyfer darparwyr sy'n tanberfformio ac y mae angen cymorth pellach arnynt.** | • cyflwyno lefelau gwell o weithgarwch arolygu 'dilynol', sef monitro gan Estyn ac (i ysgolion) monitro gan yr awdurdod lleol, yn ogystal â'r categorïau statudol, sef mesurau arbennig a gwelliant sylweddol;<br>• adnabod bod angen gweithgarwch dilynol ar oddeutu 40% o'r ysgolion cynradd ac uwchradd a arolygwyd rhwng mis Medi 2010 a mis Ebrill 2011 ar un o'r pedair lefel;<br>• pennu protocolau clir ar gyfer y barnau arolygu a fydd yn sbarduno gweithgarwch dilynol;<br>• pennu protocolau clir ar gyfer gweinyddu a chyfathrebu tasgau sy'n deillio o weithgarwch dilynol;<br>• trafod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), ynghylch sut y cânt eu cynnwys mewn gweithgarwch dilynol;<br>• rhoi arweiniad i sectorau ar natur gweithgarwch dilynol mewn llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector; a<br>• rhoi arweiniad a diweddariadau ar weithgarwch dilynol i gontractwyr, arolygwyr cofrestredig ac arolygwyr tîm mewn hyfforddiant diweddaru. |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Gwella hyder a sicrwydd y cyhoedd mewn ansawdd arolygiadau ac adroddiadau trwy:**<br><br>• **ddod â mwy o arolygiadau ysgol yn fewnol; a**<br>• **darparu arweiniad, hyfforddiant a monitro i arolygwyr yn barhaus.** | • cwblhau 50% o'n harolygiadau yn y sector ysgolion a gynhelir yn fewnol o fis Medi 2010 a chadw arolygiadau ym mhob sector arall yn fewnol;<br>• cydweithio'n agos â chontractwyr arolygu ysgolion i reoli'r pontio graddol i arolygiadau mewnol yn y sector ysgolion a gynhelir;<br>• rhoi arweiniad a hyfforddiant i arolygwyr cofrestredig ac arolygwyr tîm mewn arolygiadau ysgol dan gontract, ac i arolygwyr ychwanegol sy'n ategu'r fframwaith newydd ar gyfer arolygiadau dan arweiniad Estyn yn y sectorau ysgol;<br>• ailhyfforddi arolygwyr ychwanegol ar y fframwaith arolygu 2010 newydd ar gyfer pob sector ôl-16;<br>• rhoi arweiniad a hyfforddiant i arolygwyr lleyg ysgolion;<br>• asesu a rhoi arweiniad a hyfforddiant i aseswyr cymheiriaid i fod yn arolygwyr cymheiriaid dan y trefniadau 2010 newydd;<br>• rhoi arweiniad a hyfforddiant i enwebeion ar y fframwaith arolygu newydd, gan gynnwys pecynnau hyfforddiant ar y we;<br>• parhau i fonitro ansawdd arolygiadau dan gontract a dan arweiniad Estyn trwy brosesau cadarn ar gyfer sicrhau ansawdd, a defnyddio'r rhain i lywio hyfforddiant a datblygiad arolygwyr ac i fireinio trefniadau arolygu;<br>• cyflwyno system sicrhau ansawdd newydd ar gyfer pob arolygydd ychwanegol; a<br>• defnyddio holiaduron ôl-arolygiad i gynorthwyo ein gweithdrefnau ar gyfer asesu ansawdd arolygiadau a llywio ein gwaith hyfforddi a datblygu. |
| 4 | **Cyflwyno adroddiadau arolygu newydd, byrrach, haws eu defnyddio a mwy hygyrch, sy'n canolbwyntio ar y nodweddion pwysicaf a nodwyd.** | • sicrhau bod pob adroddiad arolygu yn fyrrach o lawer nag yn ystod y cylch diwethaf (3,000 o eiriau neu'n llai, fel arfer) a bod y testun yn ategu'r barnau mewn modd sy'n gwneud adroddiadau'n glir ac yn ddefnyddiol i ddarparwyr a defnyddwyr gwasanaethau;<br>• cyhoeddi sylwebaeth ar y dysgwr ac (i ysgolion) holiadur rhieni sy'n cael ei dderbyn cyn pob arolygiad fel atodiad i bob adroddiad arolygu;<br>• datblygu rôl y Rheolwr Ansawdd a Chydymffurfio i wirio ansawdd adroddiadau arolygu a sicrhau eu bod wedi'u seilio ar dystiolaeth ac yn glir i ddarllenwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Rhoi ystyriaeth well i farn dysgwyr i roi cipolwg ar y profiadau dysgu a gwella sail ein tystiolaeth.** | • sefydlu system o holiaduron i gael barn dysgwyr am agweddau ar addysg a hyfforddiant sy’n cael eu derbyn cyn pob arolygiad, ynghyd â system o holiaduron rhieni mewn arolygiadau o ysgolion;<br>• pennu meincnodau mewn perthynas â’r ymatebion a geir;<br>• gosod trefniadau clir i gasglu barn dysgwyr yn ystod arolygiadau trwy gyfweliadau â dysgwyr, er enghraifft trwy gynghorau ysgol ac eco-bwyllgorau mewn lleoliadau ysgol a grwpiau cynrychioliadol mewn lleoliadau ôl-16;<br>• canfasio barn cyflogwyr yn y sectorau addysg bellach a dysgu yn y gwaith;<br>• cynnal cynllun peilot yn cynnwys oedolion sy’n dysgu yn yr arolygiadau o’u sectorau, lle bo hynny’n briodol; a<br>• cheisio pennu dulliau pellach ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid yn effeithlon ac yn effeithiol trwy weithio ar y cyd ag arolygiaethau eraill fel rhan o’r Rhaglen Arolygiaethau ar y Cyd. |
| 6 | **Datblygu a meithrin partneriaethau cryf gyda’n rhanddeiliaid, gan gydweithio â’r rhai sy’n llunio polisïau yn Llywodraeth Cymru ac arolygiaethau a darparwyr eraill i sicrhau bod mentrau ar y cyd yn cael eu cyflwyno’n eglur, mewn awyrgylch o ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr.** | • llofnodi cytundeb strategol ag AGGCC, AGIC a SAC yn amlinellu’r egwyddorion allweddol y tu ôl i’r camau nesaf o’n gwaith gyda’n gilydd;<br>• ymrwymo i gynorthwyo ysgrifenyddiaeth fach i weithio ar ran y pedwar corff arolygu, archwilio a rheoleiddio (AARh) allweddol yng Nghymru i ddatblygu, galluogi a chynllunio ein gwaith gyda’n gilydd ymhellach;<br>• ynghyd â’r pedwar corff AARh eraill, cytuno ar gynllun rhaglen ar y cyd ar gyfer 2011-2012;<br>• cydweithio â Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol eraill i weithredu Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;<br>• parhau i sicrhau y caiff arolygiadau o ysgolion â darpariaeth breswyl gan Estyn ac AGGCC eu cydlynu’n effeithiol;<br>• parhau i gynorthwyo Arolygiaeth Carchardai EM i arolygu carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc yng Nghymru, ynghyd â sefydliadau carcharol yn Lloegr sydd â nifer o garcharorion o Gymru;<br>• cynorthwyo Arolygiaeth Prawf EM yn eu Harolygiadau Achos Craidd newydd o Dimau Troseddau Ieuenctid a’u gwaith thematig, fel y bo’n briodol;<br>• gweithredu trefniadau arolygu newydd ar gyfer gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc a ddarperir gan awdurdodau lleol;<br>• cynyddu’r gwaith ar y cyd ag arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill, yn benodol AGGCC, SAC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) mewn perthynas ag arolygu awdurdodau lleol a gwaith thematig;<br>• parhau i gydweithio ag Ofsted i gyd-arolygu darparwyr sy’n cyflwyno gwasanaeth yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal ag ymweliadau arolygu a monitro â cholegau arbenigol annibynnol sy’n addysgu myfyrwyr o Gymru a Lloegr;<br>• parhau i gydweithio â’r Asiantaeth Sicrhau |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), pan fo'n meysydd cyfrifoldeb yn orgyffwrdd, i rannu gwybodaeth ac amlygu meysydd sy'n peri pryder, lle bo hynny'n briodol; a<br>• parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ar ystyriaethau sy'n ymwneud â safonau ar gyfer athrawon, datblygiad proffesiynol parhaus ac arolygu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru. |
| 7 | **Ystyried deddfwriaeth a safonau fel y maent yn berthnasol i addysg ac arolygu, fel diogelu, dwyieithrwydd, cynaliadwyedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a lles, hawliau dynol a chynhwysiant.** | • sicrhau bod ein polisi ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed wedi'i ddiweddaru'n llawn ac yn rhan annatod o'r sefydliad, a'n bod yn cydweithio ag asiantaethau eraill er mwyn ymateb yn rhagweithiol i fentrau lleol a chenedlaethol;<br>• sicrhau bod pob arolygiad yn canolbwyntio ar drefniadau darparwyr ar gyfer diogelu ac yn adrodd yn glir arnynt ym mhob adroddiad arolygu;<br>• cydweithio â Llywodraeth Cymru ac eraill i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r dull orau o ddisgrifio ac asesu cyfraniad darparwyr addysg at hyrwyddo lles, a defnyddio'r dull hwn yn y cylch arolygu newydd; ac<br>• ystyried deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol gyfredol a newydd yn llawn wrth lunio trefniadau arolygu newydd, gan gynnwys asesiad o effaith. |

**Astudiaeth achos – Datblygu a defnyddio meddalwedd newydd i symleiddio arolygiadau**

O 2010 ymlaen, mae arolygiadau'n cynnwys sylw mwy canolbwyntiedig ar adroddiadau hunanarfarnu ysgolion a darparwyr nag yn ystod y cylch arolygu blaenorol. Mae pob un ohonynt yn dechrau gyda'r darparwr yn llwytho copi o'i adroddiad hunanarfarnu ei hun i fyny i 'ystafell arolygu rithwir' (YAR). Gwefan yw hon y gall darparwyr llwytho eu dogfennau eu hunain i fyny iddi a chael amrywiaeth o arweiniad arolygu. Hefyd, mae'r tîm arolygu yn defnyddio'r YAR i reoli'r broses arolygu a choladu canfyddiadau'r tîm ar 'Ffurflenni Barnau' (FfBau), y mae arolygwyr yn eu llenwi ar gyfer pob agwedd ar eu gwaith arolygu. Mae'r YAR a'r FfBau yn systemau pwrpasol a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer y trefniadau arolygu newydd. Hefyd, mae Estyn wedi creu carfan o Gydlynwyr Arolygu o blith ei staff gweinyddol i gynorthwyo ysgolion/darparwyr a thimau arolygu trwy gydol y broses arolygu.

Erbyn hyn, mae Arolygwyr Cofnodol yn casglu adroddiad hunanarfarnu'r darparwr o'r YAR ac yn ei ystyried tuag wythnos neu bythefnos cyn yr arolygiad. Maent yn defnyddio'r adroddiad hunanarfarnu i bennu trywyddau ymholi a fydd yn arwain gwaith y tîm yn ystod yr arolygiad. Gallai'r trywyddau ymholi ganolbwyntio ar agweddau y mae'r darparwr wedi'u barnu'n dda neu'n rhagorol yn ei adroddiad hunanarfarnu, neu gallant ganolbwyntio ar agweddau ar waith y darparwyr y maent yn ceisio eu gwella, neu agweddau cyffredinol y mae Estyn o'r farn eu bod yn bwysig i'r system addysg a hyfforddiant gyfan, fel datblygu medrau llythrennedd da.

Mae ein cydweithwyr mewn cyrff Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio eraill ledled Cymru a'r DU wedi cydnabod bod yr YAR yn ddull effeithiol o goladu a rhannu gwybodaeth. Bu modd i ni alluogi cydweithio callach mewn agweddau ar ein gwaith hollarolygiaethol gan ddefnyddio'r YAR yn lle diogel i gadw gwaith ar y cyd. Mae wedi bod yn ddull effeithiol o ychwanegu gwerth at ein gwaith ag arolygiaethau eraill.

Rydym yn parhau i fonitro adborth ar ein trefniadau newydd, a chanfuwyd bod darparwyr yn croesawu'r dull newydd, gan ddefnyddio'r YAR mewn modd adeiladol a gwerthfawrogi'r cymorth a'r arweiniad a gânt gan y cydlynwyr arolygu. Bydd holi barn ymhellach am y broses yn ein galluogi i fireinio ein prosesau, a bydd datblygu amrywiaeth o offer awtomatiaeth o fewn pecyn yr YAR ymhellach yn symleiddio gwaith cynllunio a pharatoi y darparwr ac Estyn, fel ei gilydd.

## Mesurau perfformiad cylch arolygu newydd 2010

| | Canran darged | Canran wirioneddol | Sylw |
|---|---|---|---|
| Arolygiadau dan gontract a oedd yn bodloni safonau ansawdd Estyn, fel y'i pennwyd yn arweiniad Estyn | 90% | 98% | Rhagorwyd ar y targed |
| Adroddiadau arolygu dan gontract a oedd yn bodloni safonau ansawdd Estyn, fel y'i pennwyd yn arweiniad Estyn | 90% | 98% | Rhagorwyd ar y targed |
| Arolygiadau dan gontract o ysgolion a gynhelir ac UCDau y sicrhawyd eu hansawdd yn uniongyrchol trwy fonitro gan AEM | 20% | 22% | Yn uwch na'r targed oherwydd yr angen i gwmpasu'r nifer gymharol uchel o Arolygwyr Cofrestredig sy'n gweithio yn y cyfnod cynradd |
| Arolygiadau dan gontract o feithrinfeydd nas cynhelir y sicrhawyd eu hansawdd yn uniongyrchol trwy fonitro gan AEM | 5% | 8% | Yn uwch na'r targed oherwydd y gofyniad i ymateb i nifer gyfnewidiol yr arolygwyr y dyfarnwyd contractau iddynt yn ystod pob tymor arolygu |
| Adroddiadau arolygu dan gontract y sicrhawyd eu hansawdd yn uniongyrchol trwy fonitro gan AEM | 50% | 45% | Ni chyrhaeddwyd y targed, yn gyffredinol - mae'r gronfa gymharol fach o arolygwyr meithrin sy'n cwblhau adroddiadau arolygu wedi arwain at gyfradd is y mae angen sicrhau eu hansawdd, gan olygu bod y ffigurau cyffredinol islaw'r targed.<br><br>Dylid cofio hefyd fod y targed yn sylweddol uwch na'r 20% yn ystod y blynyddoedd blaenorol, oherwydd nod Estyn i sicrhau y caiff cyfran uwch o adroddiadau arolygu eu monitro yn ystod blwyddyn gyntaf y cylch arolygu. |

### Adroddiadau dan arweiniad Estyn

| | Canran darged | Canran wirioneddol | Sylw |
|---|---|---|---|
| Adroddiadau arolygu dan arweiniad Estyn na ddiwygiwyd ar ôl eu cyhoeddi o ganlyniad i her a gadarnhawyd | 100% | 100% | Bodlonwyd y targed |
| Adroddiadau arolygu dan arweiniad Estyn a gyhoeddwyd o fewn terfynau amser statudol neu gytûn | 100% | 100% | Bodlonwyd y targed |

### Arolygiadau Estyn 2010-2011

| Sector | Nifer a gynlluniwyd | Nifer wirioneddol | Sylw |
|---|---|---|---|
| Lleoliadau meithrin nas cynhelir | 99 | 100 | Rhagorwyd ar y targed |
| Ysgolion cynradd a meithrin | 272 | 265 | Arolygwyd ychydig yn llai o ysgolion cynradd ac uwchradd nac a ragamcanwyd yn y Cynllun Blynyddol, oherwydd i rai ysgolion gael eu cau a hwyrni gwyliau'r Pasg 2011, a oedd yn golygu y cynhaliwyd rhai o arolygiadau tymor y gwanwyn ym mlwyddyn ariannol 2011-2012. |
| Ysgolion uwchradd | 32 | 30 | |
| Ysgolion arbennig | 8 | 8 | Bodlonwyd y targed |
| Ysgolion annibynnol, gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol | 6 | 5 | Ar ôl cynhyrchu'r Cynllun Blynyddol, aildrefnwyd arolygiadau yn ystod y flwyddyn o chwech i bump, er mwyn sicrhau y caiff arolygiadau eu gwasgaru'n well yn ystod y cyfnod arolygu chwe blynedd. |
| Unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) | 5 | 2 | Arolygwyd llai o unedau cyfeirio disgyblion nag a ragamcanwyd yn wreiddiol oherwydd natur dros dro y ddarpariaeth mewn rhai awdurdodau lleol. |
| Awdurdodau lleol | 5 | 5 | Bodlonwyd y targed |
| Ôl-16 | 25 | 20 | Llai o arolygiadau nag a ragamcanwyd oherwydd tynnu arolygiadau o'r Adran Gwaith a Phensiynau a Gyrfa Cymru o gylch gwaith Estyn. Lleihawyd hyn ymhellach trwy gyfuno rhai sectorau mewn un arolygiad a grwpio'r ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned mewn rhai ardaloedd. |

## Amcan 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 1 | **Datblygu a gweithredu dull i gefnogi datblygu polisïau cenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a chryfhau ein galluoedd rheoli gwybodaeth trwy roi mwy o bwyslais ar adolygiadau thematig.** | • cynnal llai o arolygon mwy sylweddol sydd â chysylltiad agosach â blaenoriaethau cenedlaethol;<br>• cynnal adolygiadau thematig fel yr amlinellwyd yn y llythyr 'cylch gwaith' blynyddol i'r Prif Arolygydd gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (gweler y rhestr ar dudalen 13);<br>• rhoi cyngor a chymorth i AdAS yn ôl y gofyn, gan gynnwys cymryd rhan mewn ystod eang o bwyllgorau, gweithgorau a grwpiau ymgynghorol Cynulliad Cymru;<br>• cydweithio ag AdAS i lunio rhestr strategol o bynciau cyngor ar gyfer 2011-2012, sy'n cynnwys rhai adroddiadau cylch gwaith a gynlluniwyd dros gyfnodau hwy a cheisiadau manwl i ategu pob adroddiad cylch gwaith cytûn; a<br>• chynllunio i gyfathrebu canfyddiadau polisi yn well i gynulleidfa ehangach trwy adroddiadau cylch gorchwyl wedi'u hailwampio a rhaglen gytûn o gyfleoedd yn y cyfryngau i ategu cyhoeddi ein hadroddiadau cylch gwaith a'u canfyddiadau. |
| 2 | **Llunio Adroddiad Blynyddol sy'n crynhoi ein barn am ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru ac sy'n helpu llywio datblygu polisïau ar gyfer y dyfodol.** | • llunio Adroddiad Blynyddol a roddodd adolygiad chwe blynedd o ansawdd addysg a hyfforddiant yn ystod y cylch arolygu diwethaf (2004-2010);<br>• cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a gweddarllediad ar ein gwefan, a llunio ymgyrch yn y cyfryngau i gefnogi ei gyhoeddi;<br>• cyhoeddi chwe astudiaeth achos arfer orau ar ffurf fideos i ategu'r negeseuon yn yr adroddiad blynyddol; a<br>• datblygu strategaeth ar gyfer cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol dros gyfnod chwe blynedd y cylch arolygu nesaf (2010-2016). |
| 3 | **Cryfhau ein gallu mewnol trwy ddatblygu rolau penodol sy'n cwmpasu materion addysg polisi allweddol a chyfrifoldebau fesul sector**. | • cyflwyno a darparu arweiniad pellach ar rolau cyswllt rhanbarthol mewn nifer o feysydd, yn enwedig Arolygwyr Cyswllt Awdurdodau Lleol a Chydlynwyr Rhanbarthol, sy'n ymweld ag uwch aelodau staff ac aelodau etholedig mewn awdurdodau lleol yn rheolaidd ac yn cynnal ymweliadau 'prawf ar realaeth' ag ysgolion a darparwyr dysgu eraill;<br>• cyflwyno a darparu arweiniad pellach ar rolau arweiniol mewn sectorau ar gyfer y sectorau y mae Estyn yn eu harolygu;<br>• pennu ystod o arolygwyr arweiniol polisi addysg ac arweiniad gwell ar eu cyfrifoldebau; a<br>• threfnu cyfleoedd rheolaidd i arolygwyr arweiniol ddiweddaru a/neu hyfforddi pob arolygydd. |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | **Cryfhau ein galluoedd rheoli gwybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth o'n harolygiadau a'n dealltwriaeth o faterion addysg a hyfforddiant.** | • parhau i ddatblygu a gwella'r fframwaith rheoli gwybodaeth electronig, gan ganolbwyntio ein sylw ar ystyriaethau sy'n debygol o gael yr effaith orau ar gynhyrchu gwelliannau i ddysgwyr;<br>• datblygu'r modd yr ydym yn dadansoddi ac yn defnyddio tystiolaeth arolygu trwy systemau gwybodaeth reoli gwell;<br>• defnyddio gwybodaeth arolygu 'fewnol' i lywio gwaith arolygon cylch gwaith yn uniongyrchol; a<br>• datblygu gallu ein Huned Ystadegol ymhellach i ddarparu data perthnasol ac amserol i arolygwyr ei ddefnyddio mewn gweithgarwch arolygu a chylch gwaith. |
| 5 | **Cydweithio er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru.** | • ymgysylltu'n effeithiol â'r Rhaglen Arolygiaethau ar y Cyd trwy Cyd-weithgor Penaethiaid yr Arolygiaethau i gydlyno cydweithio mwy effeithiol a systematig rhwng yr arolygiaethau;<br>• o fewn y Rhaglen Arolygiaethau ar y Cyd, cryfhau'r dulliau presennol o gynllunio a chyflwyno gwaith adolygu allanol mewn modd cydlynol a chymesur;<br>• datblygu rôl y Rheolwr Prosiect Arolygiaethau ar y Cyd, sydd ar secondiad am flwyddyn, i hwyluso gwaith presennol ar y cyd rhwng Estyn, SAC, AGIC ac AGGCC;<br>• lle y bo'n briodol, cymryd rhan mewn gweithgarwch arolygu ac adolygu ar y cyd ag arolygiaethau eraill, fel y manylwyd arno dan Amcan Strategol 1.6;<br>• sicrhau bod ein Cynllun Blynyddol a'r strategaethau a pholisïau allweddol wedi'u halinio â datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru;<br>• ymateb i Lywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill ac/neu eu cynghori ar ymgyngoriadau sy'n ymwneud â datblygiadau polisi addysg a hyfforddiant, yn ôl y gofyn;<br>• cydweithio'n agos â SAC i gynnwys aelod staff fel aelod llawn o bob tîm arolygu Gwasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (GAALlPPhI);<br>• rhannu gwybodaeth am berfformiad awdurdodau lleol ag AGGCC a SAC yn weithredol ac yn rheolaidd, i gefnogi Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a llywio adroddiad gwella blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ar bob awdurdod lleol; ac<br>• arwain gwaith ar draws AGGCC, Estyn, AGIC a SAC i ddatblygu cyfleoedd dysgu a datblygu hollarolygiaethol, a chyfrannu'n weithredol ar waith i gynnwys rhanddeiliaid pob arolygiaeth. |

**Adroddiadau cylch gwaith**

Mewn ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog, cyhoeddwyd 13 o adroddiadau gennym yn ystod 2010-2011 ar y pynciau canlynol:

Cyhoeddwyd **pob un o'r 13** o adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 2010-2011 **(100%)** o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru.

| Enw | Dyddiad cyhoeddi |
|---|---|
| Pa mor dda y mae colegau'n cynorthwyo diwydiant? | 13 Ebrill 2010 |
| Sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial | 14 Ebrill 2010 |
| Arloesedd yng nghyfnod allweddol 3 | 10 Mai 2010 |
| Gwella rhifedd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 | 11 Mai 2010 |
| Arfarniad o effaith Cynlluniau Pontio a'r Grant Pontio ar bartneriaethau ysgol gynradd ac uwchradd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 | 12 Mai 2010 |
| Effaith y rhaglen Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid (CPCP) ar brifathrawiaeth | 17 Mai 2010 |
| Rheolwyr Busnes Ysgolion - Arweiniad ar Arfer Orau | 19 Mai 2010 |
| Ansawdd a pherthnasedd hyfforddiant staff i gyflwyno addysg sylfaenol i oedolion (ASO) a Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) | 20 Mai 2010 |
| Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen a'i Effaith ar Addysgu a Dysgu - Adroddiad Interim | 24 Mai 2010 |
| Sut y mae athrawon yn arfarnu effaith prosiectau datblygiad proffesiynol parhaus a ariennir gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) | 11 Mehefin 2010 |
| Arolwg o Hyfforddiant Cymwysterau Proffesiynol i Weithwyr Ieuenctid yng Nghymru | 11 Mehefin 2010 |
| Ansawdd adeiladau newydd mewn Addysg Bellach a'u heffaith ar ddysgwyr | 24 Mehefin 2010 |
| Dewis ehangach a'r craidd dysgu - cynnydd wrth weithredu dewis ehangach o opsiynau a'r craidd dysgu ar gyfer dysgwyr 14-19 oed | 3 Awst 2010 |

**Astudiaeth achos – Cydweithio rhwng cyrff arolygu, archwilio ac adolygu yng Nghymru**

Mae Estyn yn gwbl ymroddedig i sicrhau gwelliant parhaus mewn trefniadau cydweithio. Ynghyd â phenaethiaid AGGCC, AGIC a SAC, mae PAEM yn arwain partneriaeth sy'n ceisio gwella'r modd y caiff gwaith arolygu ac adolygu yn y sector cyhoeddus ei gyflwyno. Yn fwy strategol, byddwn yn nodi ac yn cynllunio rhaglenni gwaith trosfwaol i ategu'r gwelliannau sydd eu hangen mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, pa le bynnag y mae gennym ffocws ar feysydd cyflwyno ac atebolrwydd cyffredin.

Mae cydweithio rhwng y prif gyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio (AARh) yng Nghymru eisoes wedi arwain at fanteision a chyflawniadau sylweddol. Hoffem ddatblygu a rheoli ein gwaith yn dda ac adeiladu ar ein harfer bresennol. Hefyd, hoffem alluogi newid ac arloesedd yn ein gwaith wrth i ni symud ymlaen gyda'n gilydd mewn meysydd o gyfrifoldeb ar y cyd. Mae'r hinsawdd ariannol a'r cyd-destun polisi cyfredol yn ei gwneud yn amser da i gryfhau'r dulliau presennol o gynllunio a chyflwyno gwaith adolygu allanol mewn modd cydlynol a chymesur. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar ddatblygiadau a gyflawnwyd eisoes a'r gwaith sy'n cael ei wneud i roi Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar waith.

Ym mis Chwefror 2011, llofnododd Estyn a'r prif gyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio eraill yng Nghymru Gytundeb Strategol. Mae'n amlinellu'r pum amcan strategol sy'n arwain ein gwaith gyda'n gilydd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

1 Mae ein cydweithio yn cael ei lywio gan weledigaeth a phwrpas cyffredin, ac yn cael ei gefnogi, lle bo'r angen, gan gytundebau strategol a phrotocolau gweithredu.

2 Bydd ein gweithgareddau cynllunio a rhaglennu priodol yn cael eu cydlynu fel bod rhaglenni gwaith cymesur yn cael eu creu a fydd yn osgoi dyblygiad a sicrhau bod prif beryglon a phryderon yn cael eu harchwilio.

3 Byddwn yn datblygu dulliau er mwyn i'n sefydliadau allu rhannu gwybodaeth er mwyn llywio ein rhaglenni gwaith ac er mwyn helpu sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ymarferol ac yn brydlon.

4 Byddwn yn adnabod cyfleoedd i ddod ynghyd â'r wybodaeth a'r deallusrwydd am wasanaethau cyhoeddus sydd gennym, ac adrodd ar hyn mewn ffyrdd sy'n cefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau, llywio creu polisïau a chraffu cenedlaethol, a chryfhau atebolrwydd cyhoeddus.

5 Byddwn yn monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud gennym o ran gweithio ar y cyd yn gyson ac adrodd ar hyn yn agored a thryloyw i randdeiliaid allweddol.

Rydym yn cydnabod graddau ein cyd-ddibyniaeth i gyflawni rhai o'n nodau sefydliadol, ond hefyd yn cydnabod y meysydd gwaith lle'r ydym yn annibynnol.

Caiff ein hamcanion strategol eu cyflwyno trwy'r Rhaglen Arolygiaethau ar y Cyd (RhAC) a'i ffrydiau gwaith cysylltiedig.  Bob blwyddyn, byddwn yn gweithio tuag at y deilliannau hyn trwy Gynllun Blynyddol y Rhaglen Arolygiaethau ar y Cyd.  Mae newid a gwella yn nodweddion allweddol yn esblygiad parhaus Estyn.  Bydd y Rhaglen Arolygiaethau ar y Cyd ei hun yn esblygu ochr yn ochr â'r gwelliannau a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gennym ar hyn o bryd.  Fodd bynnag, bydd y rhaglen yn alluogydd allweddol hefyd o ran cyflawni nodau cyffredin, ac yn ychwanegu gwerth at yr hyn y gallwn ei gyflawni ar ein pennau ein hunain.

Yn barod, mae'r RhAC wedi ein galluogi i gydweithio â'n cydweithwyr AARh i ganolbwyntio ar ffrydiau gwaith cytûn.  Rydym wedi sefydlu gweithgorau sy'n canolbwyntio ar: ddysgu a datblygu; gwaith adolygu cenedlaethol; rhannu gwybodaeth; datblygu gwefannau; ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.  Hefyd, rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r wefan 'www.goodpracticewales.com' i ehangu mynediad at ein harfer dda.  Yn ogystal, rydym wedi cynnal adolygiad ar y cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid ac arolygiad ar y cyd o Fyrddau Diogelu Plant Lleol, sydd wedi cryfhau ein cydweithio ag AGGCC a SAC mewn gwaith llywodraeth leol yn sylweddol.

## Amcan 3: Hyrwyddo lledaenu arfer orau wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru

Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... Beth rydym wedi'i wneud...

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Datblygu a gweithredu dull sy'n amlinellu'r modd y byddwn yn rhannu arfer orau ac yn cyflwyno rhaglen ymgysylltu gyda darparwyr a sefydliadau eraill sy'n hyrwyddo gweithio cydweithredol a thrafodaethau ar faterion addysg a hyfforddiant allweddol.** | • cyflwyno prosesau mewnol sy'n sicrhau ein bod yn nodi ac yn deall beth yw gweithgareddau arfer orau a'u bod yn cael eu cofnodi'n effeithiol a'u cynllunio i'w gwneud yn hawdd i bob un o'n harolygwyr, darparwyr perthnasol, partneriaid a rhanddeiliaid eu defnyddio;<br>• datblygu dull sy'n canolbwyntio ar ledaenu arfer orau ymhlith ymarferwyr, gan ddefnyddio tystiolaeth o weithgarwch arolygu a chylch gwaith;<br>• cymryd gofal i sicrhau nad yw ein hadroddiadau'n canolbwyntio ar feysydd i'w gwella yn unig, ond hefyd yn cynnwys sylwadau ar arfer orau i lywio darparwyr eraill pan fyddant yn datblygu eu darpariaeth eu hunain;<br>• amlygu a lledaenu arfer orau fel rhan o'n gweithgarwch 'dilynol';<br>• dechrau datblygu ein gwefan a'n hallrwyd fel eu bod yn ategu ac yn rhoi gwybodaeth am arfer orau ac yn amlygu astudiaethau achos, y cafodd rhai ohonynt eu cynnwys yn Adroddiad Blynyddol PAEM; a<br>• chynnal fforwm rhanddeiliaid i drafod arfer orau a welwyd mewn sectorau. |
| 2 | **Cefnogi datblygiad parhaus hunanwelliant darparwyr trwy gynnal deialog broffesiynol o ansawdd uchel yn ystod arolygiadau a chyflwyno set o offer hunanarfarnu (wedi'u bathodynnu ar y cyd gennym ni a Llywodraeth Cymru).** | • lansio llawlyfrau arweiniad i ddarparwyr mewn 12 sector yn ystod tymor yr haf 2010 i hyrwyddo hunanarfarnu;<br>• cydweithio ag APADGOS i lunio'r offer hunanarfarnu cyntaf;<br>• parhau i rannu ein penderfyniadau â rhanddeiliaid trwy ein fforymau a thrwy sesiynau rhannu gwybodaeth;<br>• parhau i feithrin cysylltiadau effeithiol â chyrff rhwydweithio proffesiynol, fel Llywodraethwyr Cymru, ColegauCymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a'r Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion Dysgu Cymru;<br>• lansio'r cyhoeddiad 'Beth sy'n gwneud darparwr hyfforddiant da?' trwy weithdai yng ngogledd a de Cymru; a<br>• chynnal trafodaethau adeiladol â grŵp gweithredol a sicrhau ansawdd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC). |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein modelau arolygu a fframweithiau cenedlaethol mewn addysg a hyfforddiant wedi'u halinio'n agos.** | • alinio ein Fframwaith Arolygu Cyffredin â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY) a'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd (FfAE), fel eu bod yn gweithio â'i gilydd fel rhan o system ansawdd gyffredinol gydlynol - er mwyn sicrhau cysondeb ac osgoi dyblygu gwaith i ddarparwyr;<br>• alinio ein gwaith â gwaith Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol eraill i roi'r Mesur Llywodraeth Leol ar waith; a<br>• chydweithio a chydymffurfio â datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar Arolygu, Archwilio a Rheoleiddio yng Nghymru. |
| 4 | **Cynyddu ein cynhwysedd i nodi a chofnodi arfer orau yn sgil dechrau dod â mwy o weithgareddau arolygu ysgolion a gynhelir yn fewnol.** | • cynnal 50% o'n harolygiadau yn y sector ysgolion a gynhelir yn fewnol o fis Medi 2010 a chadw arolygiadau ym mhob sector arall yn fewnol;<br>• cydweithio'n agos â chontractwyr arolygiadau ysgol i reoli pontio graddol i arolygiadau mewnol yn y sector ysgolion a gynhelir; a<br>• phennu protocolau ar gyfer cofnodi astudiaethau achos o arfer orau a welwyd yn ystod arolygiadau o ysgolion a darparwyr eraill a hyrwyddo'r rhain trwy ran benodol o'n gwefan. |
| 5 | **Pennu ffordd o gasglu, monitro a dadansoddi arfer orau trwy gyflwyno rolau arolygydd arweiniol fesul sector.** | • cyflwyno rolau arweinydd sector a threfnu i'r arolygwyr arweiniol hyn goladu gwybodaeth am arfer orau yn eu meysydd arbenigol; a<br>• gosod protocolau ar gyfer ein harolygwyr sy'n gweithio yn y maes i adnabod arfer sy'n arwain y sector a sicrhau y caiff y wybodaeth hon ei choladu gennym i'w lledaenu ar draws sectorau. |
| 6 | **Gwella ein cynhwysedd technolegol i wella rhannu gwybodaeth ac arfer orau.** | • dadansoddi a dehongli enghreifftiau o arfer orau a gasglwyd trwy ein gweithgareddau arolygu cylchol a thematig, a chyfleu'r deilliannau trwy adroddiadau, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol PAEM;<br>• ceisio gwneud y defnydd gorau o systemau TG gwell wrth ddatblygu rheoli gwybodaeth, gan gynnwys symud i system rheoli cofnodion electronig;<br>• datblygu gwefan newydd Estyn fel llwyfan ar gyfer lledaenu arfer orau; ac<br>• ymgysylltu â phorth ar-lein www.goodpracticewales.com i rannu ein harfer hynod yn ehangach ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | **Cynyddu cynnwys ymarferwyr cyfredol fel arolygwyr cymheiriaid ac enwebeion ar arolygiadau i hyrwyddo trawsffrwythloni arfer dda.** | • datblygu deunyddiau hyfforddiant ar-lein i gynorthwyo enwebeion i ddeall eu rôl mewn arolygiad;<br>• cadw rôl yr enwebai ar gyfer pob arolygiad ym mhob sector o fis Medi 2010 (arweinydd/ rheolwr o bob darparwr sy'n gweithio fel rhan o bob tîm arolygu);<br>• cynnal cyrsiau trosi i aseswyr cymheiriaid (athrawon, darlithwyr, tiwtoriaid, hyfforddwyr a rheolwyr sy'n gweithio mewn addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd) er mwyn iddynt fod yn arolygwyr cymheiriaid, wedi'u hyfforddi i fod yn aelodau llawn o dîm arolygu a'u paratoi i fynd â medrau ac arbenigedd newydd yn ôl i'w sefydliadau;<br>• sefydlu rôl yr arolygydd cymheiriaid ar gyfer pob arolygiad ym mhob sector o fis Medi 2010;<br>• cyflwyno memorandwm o ddealltwriaeth rhwng Estyn, yr arolygydd cymheiriaid a'i gyflogwr/chyflogwr, sy'n amlinellu rôl a chyfrifoldebau pob parti yn glir;<br>• cyflwyno trefniadau ar gyfer cymorth ariannol cytûn i gyflogwyr arolygwyr cymheiriaid o fis Medi 2010 i helpu cyflogwyr â'r ymarferoldebau o ryddhau eu staff i weithio mewn arolygiadau; a<br>• thrwy ein gwaith â chyrff AARh eraill, darparu cyfleoedd i staff arolygu yn AGGCC gysgodi arolygiadau GAALlPPhI, sy'n wedi arwain at arolygwyr AGGCC yn cyfrannu'n ffurfiol at arolygiadau GAALlPPhI. |

**Sylwadau, ymholiadau a chwynion**

Fel sefydliad, rydym yn cymryd pob sylw, ymholiad a chwyn o ddifrif a byddwn yn ymateb i bob cwyn yn llawn, yn deg ac mor gyflym ag y bo modd. Yn 2010-2011, fe wnaethom ddelio ag **11** o gwynion.

Hefyd, mae gan Estyn ddyletswydd statudol i ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data mewn modd amserol.

**Ymateb i gŵynion:**

Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd yn 2010-2011: **11**

| Cam | Blwyddyn | Canlyniad | Pwnc y cwyn |
|---|---|---|---|
| 2 | 2011 | Ni chadarnhawyd | Barnau adroddiad arolygu |
| 2/3 | 2011 | Cam 2 – Cadarnhawyd yn rhannol<br>Cam 3 – Ni chadarnhawyd | Ymddygiad staff<br>Barnau<br>Ansawdd adroddiad arolygu |
| 2 | 2011 | Cam 2 – Ni chadarnhawyd | Ymddygiad staff |
| 3 | 2011 | Cam 3 – Cadarnhawyd yn rhannol | Proses arolygu<br>Barnau |
| 3 | 2011 | Cam 3 – Cadarnhawyd yn rhannol | Ymddygiad staff<br>Proses arolygu |
| 2 | 2010 | Cam 2 – Cadarnhawyd yn rhannol | Ystyriaethau a amlinellwyd yn yr adroddiad SAAr |
| 2/3 | 2010 | Cam 2 – Ni chadarnhawyd<br>Cam 3 – Ni chadarnhawyd | Canlyniad hyfforddiant arolygwyr cymheiriaid |
| 3 | 2010 | Cam 3 – Cadarnhawyd yn rhannol | Proses a barnau arolygiad |
| 3 | 2010 | Cam 3 – Ni chadarnhawyd | Ymddygiad staff |

**Ceisiadau a gafwyd dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:**

**10** o geisiadau

Cwblhawyd **100**% o fewn y targed o 20 diwrnod gwaith.

**Ceisiadau a gafwyd dan y Ddeddf Diogelu Data**

**83** o geisiadau

Cwblhawyd **100**% o fewn y targed o 40 diwrnod calendr o dderbyn y tâl a dull adnabod

Mae ceisiadau'n cynnwys ffurflenni arsylwi gwersi sy'n cael eu dosbarthu dan y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Y targed ar gyfer cwblhau'r ceisiadau hyn yw 20 diwrnod gwaith (28 diwrnod calendr) yn unol â'r targed ar gyfer ymateb i geisiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**Astudiaeth achos – Rheoli gwybodaeth a'r fewnrwyd**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cymryd camau sylweddol pellach i hwyluso rheoli gwybodaeth yn effeithiol o fewn Estyn ac â'n rhanddeiliaid allweddol. Gwnaethom lunio a gweithredu system rheoli cofnodion electronig gan ddefnyddio Microsoft Sharepoint i ategu fframwaith rheoli gwybodaeth Estyn, a pharhau i adolygu a gwella'r swyddogaeth hon yn barhaus. Mae gweithgor rheoli gwybodaeth Estyn yn cyfarfod bob mis a chaiff ei ategu gan waith y grŵp llywodraethu gwybodaeth.

Rydym yn dechrau rhoi gwybodaeth o waith ymchwil yn ein systemau rheoli gwybodaeth ac, erbyn hyn, mae adroddiadau gan swyddogion ac arolygwyr arweiniol arbenigol ym mhob sector o waith Estyn ar gael ac yn cael eu diweddaru'n barhaus. Bydd y wybodaeth hon yn helpu i hysbysu ein Hadroddiad Blynyddol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a'n cyngor i Lywodraeth Cymru a chyrff eraill.

Rydym yn parhau i sicrhau cysylltiadau effeithiol rhwng y grŵp arfer orau, y grŵp cylch gwaith a gweithgor y wefan er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflwyno a lledaenu gwybodaeth. Rydym yn cysylltu â'r arbenigwyr rheoli gwybodaeth mewn arolygiaethau eraill yng Nghymru er mwyn llunio protocolau, gweithdrefnau a meysydd gwaith cyffredinol i wella rhannu gwybodaeth rhwng arolygiaethau yng Nghymru.

Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant i AEMau yn ystod y flwyddyn ac mae'r swyddog arweiniol newydd dros reoli gwybodaeth yn gweithio fel 'hyrwyddwr' i helpu AEM i drosglwyddo'r holl wybodaeth sydd ganddynt i ffolderi SharePoint. Mae defnyddio rheolaeth fersiynau dogfen a gyflwynwyd trwy'r system SharePoint eisoes wedi bod yn werthfawr o ran ysgrifennu adroddiadau cylch gwaith. Caiff defnydd y ffolderi 'materion pobl' i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ei symud ymlaen ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

**Astudiaeth achos – Estyn yn cynnal cynhadledd ryngwladol**

Ar 9 a 10 Medi 2010, cynhaliodd Estyn gynhadledd ryngwladol ar gyfer aelodau Cynhadledd Ryngwladol Sefydlog yr Arolygiaethau i arddangos gwaith arolygu addysg a hyfforddiant Estyn yng Nghymru, ac i ddysgu o fethodolegau a phrosesau arolygiaethau eraill yn Ewrop. Cyflwynwyd nifer o farnau a thraddodiadau a alluogodd arolygiaethau i gyfnewid gwybodaeth ac archwilio ystyriaethau a oedd yn ymwneud ag arolygu addysgu a dysgu disgyblion rhwng tair a deunaw oed.

Roedd y rhaglen yn cynnwys prif siaradwyr o Ogledd Iwerddon a Gwlad Belg, yn ogystal â chynrychiolwyr o Gymru, gan gynnwys araith gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes. Cymerodd arolygwyr ran mewn gweithdai ar ystod eang o bynciau a ddarparwyd gan aelodau SICI, a chawsant gyfle i ymweliad ag ysgol gynradd neu ysgol uwchradd. Detholwyd ysgolion er mwyn arddangos arfer ragorol mewn addysgu a dysgu.

Mae aelodau SICI yn cynrychioli ystod eang o arolygiaethau ledled Ewrop sydd â gwahanol lefelau aeddfedrwydd a dulliau sefydliadol. Mae polisi cenedlaethol pob gwlad yn pennu gweithgareddau arolygu pob aelod o SICI. Er bod arfer addysg ac arolygu yn amrywio o un arolygiaeth i'r llall, mae cytundeb cyffredinol bod addysgu a dysgu wrth wraidd gwaith yr arolygiaethau ac yn rhan sylfaenol o farnu llwyddiant ysgolion. Ar ben hynny, caiff ei gydnabod bod arolygiaethau'n rhannu nod cyffredin, sef hyrwyddo gwelliant mewn addysg a helpu i sicrhau bod addysgu a dysgu cystal ag y gallant fod ar gyfer pob disgybl.

Cytunwyd bod amrywiaeth y traddodiadau addysgol a'r arfer arolygu yn darparu llwyfan gyfoethog ar gyfer trafod, gan alluogi arolygwyr i rannu a dadansoddi gwahanol ddulliau o arolygu addysgu a dysgu.

Roedd y gynhadledd yn llwyfan ragorol ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arbenigedd yr arolygiaethau mewn modd adeiladol. Cydnabuwyd bod amrywiaeth cyfoethog yr arolygiaethau yn gryfder a oedd yn symbyliad pwysig ar gyfer archwilio addysgu a dysgu ledled Ewrop. Yn ogystal, fe wnaeth y gynhadledd ystyried negeseuon pwysig ar gyfer gwelliannau mewn addysg ac arolygu ar gyfer yr 21$^{ain}$ ganrif.

## Amcan 4: Datblygu Estyn fel sefydliad 'gwerth gorau' ac fel cyflogwr o ddewis

| | Beth y dywedom y byddem yn ei wneud... | Beth rydym wedi'i wneud... |
|---|---|---|
| 1 | **Hyrwyddo:**<br>• **Dwyieithrwydd;**<br>• **Cynaliadwyedd;**<br>• **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;**<br>• **Iechyd a Lles;**<br>• **Hawliau Dynol; a**<br>• **Chynhwysiant** | • cynnal ein hymroddiad i weledigaeth strategol Llywodraeth Cymru a'r cyfeiriad a bennwyd yn *Cymru Well*[2] trwy'r egwyddorion a'r safonau a amlinellir yn ein Cynllun Iaith Gymraeg;<br>• cynnal ein hymroddiad i ddyfodol cynaliadwy, fel yr amlinellir mewn polisïau cenedlaethol, gan gynnwys datganiad polisi Llywodraeth Cymru;<br>• cael ein hailachredu â lefel 3 Safon y Ddraig Werdd am flwyddyn arall ac amlinellu ein blaenoriaethau yn ein cynllun gweithredu amgylcheddol 2010-2011;<br>• datblygu ein hymagwedd at gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob un o'n gweithgareddau, gan adeiladu ar ddyletswyddau Deddf Cydraddoldeb 2010;<br>• parhau i gynnal asesiadau effaith o'n cynlluniau a'n polisïau yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol;<br>• cyflawni lefel Efydd y Safon Iechyd Corfforaethol am dair blynedd arall i adlewyrchu ein gwaith ar iechyd a lles gweithwyr; cafodd staff eu profion iechyd blynyddol hefyd; a<br>• pharhau i weithio mewn partneriaeth â staff ac undebau llafur i weithredu ein cynllun gweithredu Buddsoddwyr mewn Pobl a chyflawni'r wobr Aur, sef y lefel uchaf o gydnabyddiaeth y gall sefydliadau ei chyflawni, yn dilyn ein hadolygiad Buddsoddwyr mewn Pobl diweddaraf. |
| 2 | **Parhau i ddatblygu a rhoi ein cynlluniau gweddnewid ar waith, wrth sicrhau bod ein rhwymedigaethau statudol yn cael eu cyflawni'n ddiogel.** | • parhau â'n rhaglen datblygu polisïau – gan gynnwys adolygu polisïau presennol a datblygu polisïau newydd – y mae pob un ohonynt ar gael ar ein gwefan;<br>• cryfhau'r berthynas dda bresennol rhwng rheolwyr a'r undebau llafur – gweithredu trafodaeth agored trwy fforymau gweithredol a strategol rheolaidd a chael mewnbwn undebau llafur i ddatblygu polisïau yn gynnar yn y broses ddrafftio; a<br>• dod â'n Rhaglen Gweddnewid Estyn (RhGE) i ben trwy gyflwyno ystod o brosiectau gweddnewid yn llwyddiannus a throsglwyddo prosiectau parhaus, fel ein Strategaeth Gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth, i weithgorau 'busnes fel arfer'. |

[2] http://wales.gov.uk/news/archivepress/localgovculpress/locgovpress2000/754557/?lang=en

| | | |
|---|---|---|
| 3 | **Datblygu ac ymgorffori diwylliant sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd newydd ac yn cyfleu'r rhain yn effeithiol yn fewnol ac yn allanol.** | • parhau i symud rhaglen strwythur a threfniadaeth y gweithlu ymlaen, gan gynnal ein busnes presennol wrth i ni fudo i strwythurau a dulliau gweithio newydd, fel rheolaeth matrics, arweinyddiaeth wasgaredig a mwy o hyblygrwydd o ran defnyddio ein gweithlu;<br>• recriwtio, datblygu a chadw staff, gan sicrhau eu bod yn ymgymryd yn llawn â phopeth y maent yn ei wneud er mwyn gwireddu ein gweledigaeth;<br>• cyflwyno rolau'r arolygwyr a'r swyddogion arweiniol i sefydlu arweinyddiaeth a gwaith tîm ar bob lefel;<br>• gweithredu ein strategaeth gyfathrebu fewnol ddiwygiedig, gan gynnwys cyflwyno mewnrwyd newydd a pharhau i ymgysylltu â staff trwy ddatblygu dulliau effeithiol newydd i'w cynnwys a chyfathrebu â nhw; a<br>• chyflwyno strategaeth gyfathrebu allanol sy'n ategu ac yn cefnogi ein hamcanion a'n gwerthoedd, gan gynnwys gweithgarwch i hyrwyddo ein brand. |
| 4 | **Datblygu gallu cryfach o ran lleoli staff a chynllunio'r gweithlu sy'n cyflawni gwerth am arian ac yn ategu ein hamcanion strategol.** | • rhoi'r rhaglen cynllunio'r gweithlu ar waith i adlewyrchu natur ein gwaith, y mae llawer ohono wedi'i seilio ar brosiectau, ac annog cyfrifoldeb, menter ac arloesedd;<br>• ailffocysu ein gwaith ar ein hamcanion strategol craidd er mwyn ystyried yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant;<br>• derbyn mwy o waith o fewn nifer presennol y gweithlu, gan achub ar gyfleoedd a oedd yn deillio o staff yn gadael yn wirfoddol, i leihau ein lefelau rheolaeth o fewn yr adran Gwasanaethau Corfforaethol;<br>• gwasgaru arweinyddiaeth wrth ddyrannu rolau swyddogion arweiniol dan reolaeth matrics;<br>• rhoi strwythur staff Gwasanaethau Corfforaethol newydd ar waith i ddarparu'r gwasanaethau cymorth busnes hanfodol, adolygu pob swydd ddisgrifiad blaenorol a dyrannu staff i feysydd cymorth busnes swyddogaethol newydd, fel y tîm cydlynu arolygiadau;<br>• edrych ar yr angen i ail-gydbwyso ein gweithlu arolygu i fodloni gofynion medrau a gwybodaeth cyfnewidiol y busnes - gyda dau AEM yn gadael Estyn trwy gynllun ymadael gwirfoddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol; a<br>• meincnodi ein perfformiad yn llwyddiannus yn erbyn sefydliadau tebyg ar draws y gwasanaeth sifil trwy gymryd rhan yn Arolwg Ymgysylltiad Staff Swyddfa'r Cabinet – gan gyflawni cyfradd cyfranogiad staff o 66%, sy'n sylweddol uwch na'r lefelau cyfranogiad cyfartalog ar draws y Gwasanaeth Sifil, ac yn uwch na sgorau'r cyfartaledd grŵp â'r sgorau uchaf, hyd yn oed. |

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer ein staff i sicrhau bod ganddynt y medrau, y wybodaeth a'r gallu i gyflawni eu tasgau yn hyderus.** | • rhoi ein strategaeth hyfforddi a datblygu ar waith, gan gynnal ein harbenigedd ac adeiladu arno;<br>• cyflwyno ystod o raglenni datblygu hyfforddiant;<br>• cymerodd uwch reolwyr ran mewn rhaglen datblygu arweinyddiaeth;<br>• darparu rhaglen rheoli newid ar gyfer holl staff y gwasanaethau corfforaethol;<br>• darparu cyfleoedd hyfforddi a chysgodi ar gyfer staff mewn ystod o sectorau i ddatblygu gweithlu sy'n gallu arolygu ar draws sawl sector;<br>• darparu mentora ar gyfer pob aelod staff newydd;<br>• trefnu mentrau hyfforddiant fesul sector er mwyn i arolygwyr allanol ddiweddaru eu harbenigedd yn flynyddol;<br>• darparu hyfforddiant diweddaru bob tymor i arolygwyr cofrestredig ysgolion er mwyn sicrhau dull cyson mewn arolygiadau; a<br>• chyflwyno rhaglen dreigl i hyfforddi arolygwyr cymheiriaid newydd. |
| 6 | **Datblygu a rhoi polisïau a phrosesau cynllunio ar waith ar gyfer darparu cyfleusterau, gan ystyried gweithio gartref.** | • fel rhan o'n Strategaeth Systemau Gwybodaeth adnewyddedig, rhoi nifer o systemau allweddol ar waith i ategu ein proses arolygu newydd, gan gynnwys datblygu system holiaduron ar-lein i ddysgwyr a rhieni, offeryn coladu adroddiadau arolygu a chronfa ddata, ac 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) Estyn – sef system allrwyd ddiogel i arolygwyr a darparwyr rannu dogfennau a gwybodaeth sy'n ymwneud ag arolygiadau;<br>• parhau i ddatblygu ein System Cynllunio Adnoddau i hwyluso'r gwaith o leoli ein staff arolygu ac adnoddau arolygu allanol yn effeithlon ac yn effeithiol;<br>• sefydlu SharePoint fel ein system rheoli cofnodion a mewnrwyd staff, sy'n cefnogi cyfathrebu mewnol gwell a mynediad at wybodaeth, ynghyd â chyfrannu at ein hagendâu arbedion a chynaliadwyedd;<br>• adolygu ein gofynion o ran adeiladau swyddfa, gan gau ein swyddfa yng ngogledd Cymru a lleihau faint o le yr ydym yn ei brydlesu yn ein prif swyddfa yng Nghaerdydd er mwyn arbed costau sylweddol; a<br>• chefnogi'r symudiad i weithio gartref trwy ddatblygu polisïau a phrotocolau sy'n sicrhau bod staff yn cael cyfleusterau priodol a bod unrhyw effeithiau negyddol posibl o weithio gartref, fel unigolion yn teimlo'n arunig, yn cael eu lleihau. |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | **Datblygu a rhoi prosesau cynllunio ariannol ar waith sy'n cyflawni gwerth am arian ac yn ategu ein hamcanion strategol.** | • mewn ymateb i setliad cyllidebol Estyn fel rhan o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, datblygu opsiynau a pharatoi cynllun tair blynedd manwl ar sut y byddem yn cyflawni'r arbedion cyllidebol angenrheidiol, gan adolygu ein strategaeth i gynnwys gostyngiadau cyllidebol sylweddol blwyddyn ar ôl blwyddyn dros y cyfnod gofynnol a rhoi nifer o arbedion ar waith ar unwaith, gan arwain at arbedion sylweddol i'r gyllideb y flwyddyn hon;<br>• parhau i ddatblygu ein systemau cynllunio cyllid ac adnoddau mewnol i hwyluso monitro ac adrodd ar gostau adnoddau yn erbyn amcanion strategol;<br>• fel rhan o sefydlu swyddogaeth Cyllid a Chaffael newydd, adolygu prosesau a rheolaethau, diweddaru arweiniad i staff a chyfarwyddiadau prosesau a datblygu Llawlyfr Cyllid Estyn (sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan) sy'n amlinellu cyfrifoldebau staff ar gyfer llywodraethu ariannol da yn glir;<br>• ffurfioli ein Fframwaith Rheoli Prosiectau a sicrhau bod staff yn mabwysiadu disgyblaethau rheoli prosiect ac egwyddorion adrodd safonol; ac<br>• ymestyn ein gweithgareddau e-gaffael er mwyn symleiddio prosesau a lleihau'r effaith amgylcheddol, gan gynnwys sefydlu contract yn ôl y gofyn electronig ar gyfer arolygwyr ychwanegol. |

**Astudiaeth achos: Gweithio gartref**

**Adolygiad personol gan Liam Kealy AEM**

Roeddwn yn rhan o'r prawf gweithio gartref gwreiddiol a ddechreuodd ym mis Hydref 2009. Rwyf wedi'i chael yn weddol hawdd symud o weithio mewn swyddfa i weithio gartref. Mae rôl yr AEM yn addas iawn ar gyfer gweithio gartref. Hefyd, mae'r newidiadau a'r gwelliannau diweddar y gwnaethom i'n systemau TG wedi cynorthwyo'r pontio hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- datblygu SharePoint i gadw ac adalw gwybodaeth;
- datblygu ystafelloedd arolygu rhithwir;
- defnyddio cysylltiadau rhyngrwyd symudol; a
- darparu cysylltiad â'r rhyngrwyd yn y cartref.

Mae mentrau eraill Estyn yn cefnogi gweithio gartref yn cynnwys polisi teithio a chynhaliaeth diwygiedig a'r polisi teithio gwyrdd drafft. Mae'r ddau bolisi hyn rhoi ystyriaeth dda i anghenion teithio AEM.

Mae gweithio fel hyn wedi bod o fantais i mi'n bersonol ac i Estyn. Er enghraifft, rwyf wedi lleihau fy ôl troed carbon personol ac ôl troed carbon Estyn ac rwy'n gallu cyfrannu'n well at fy economi lleol. Rwyf wedi darganfod bod gweithio gartref yn fy ngalluogi i ganolbwyntio ar y dasg sydd ar waith. Ychydig iawn o bethau sy'n amharu arnaf yn fy swyddfa gartref o gymharu â swyddfa â chynllun agored. Hefyd, mae gweithio gartref yn galluogi staff sy'n aml yn gweithio yn y maes, oddi gartref, i adfywio eu hunain a dal i fyny ar agweddau eraill ar eu bywydau.

Yn ogystal, gall cydweithwyr rwydweithio a chyfarfod yn effeithiol gan ddefnyddio amrywiaeth o fannau cyfarfod sydd wedi'u lleoli'n gyfleus ledled Cymru. Mae gorsafoedd petrol ar draffyrdd a gwestai, er enghraifft, yn cynnig cyfleusterau da ar gyfer cyfarfodydd.

Rwyf wedi canfod ei bod yn hanfodol cadw mewn cysylltiad â chydweithwyr yn y swyddfa. Mae angen i bobl wybod beth rydych chi ei wneud a pha gynnydd yr ydych yn ei wneud. Rwy'n dueddol o ffonio fy rheolwyr unwaith neu ddwy yr wythnos a, thrwy e-bost, gallwch gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'ch cydweithwyr.

Roedd symud i weithio gartref yn cyd-daro ag ysgwyddo'r cyfrifoldeb am yr adroddiad blynyddol. Roedd hyn o fantais fawr i mi o ran rhoi'r adroddiad at ei gilydd, gan fy mod yn gallu gweithio ar adroddiad ar adegau a oedd yn gyfleus i mi ac mewn amgylchedd yr oeddwn yn gallu ei addasu i anghenion paratoi'r adroddiad. Mae llunio adroddiad blynyddol y llynedd erbyn y terfyn amser yn enghraifft dda o effeithiolrwydd gweithio gartref.

I gloi, rwy'n credu bod symud i weithio gartref wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol o fewn Estyn, ar gyfer y sefydliad a'r staff dan sylw, fel ei gilydd.

## Aelodau Bwrdd Estyn

Yn ystod 2010-2011, roedd y bobl ganlynol yn aelodau o Fwrdd Strategol Estyn ar gyfer y flwyddyn lawn, oni nodir yn wahanol.

### Cyfarwyddwyr anweithredol

Mae gan **Mrs Julie James** nifer o swyddi cyhoeddus. Mae'n aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, yn Ddirprwy Gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn Gyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Ranbarthol De Cymru, ac yn Ddirprwy Gadeirydd Pwyllgor Safonau Sir Gaerfyrddin. Mae hefyd yn Ddirprwy Gadeirydd ar gyfer Cadwch Gymru'n Daclus. Yn flaenorol, roedd yn Gyfarwyddwr Personél ar gyfer Monarch Airlines.

Mae **Mr Andrew Bellamy** yn aelod o Banel Dyfarnu Cymru ac yn cwblhau gwaith fel adolygydd cymheiriaid ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Yn flaenorol, roedd yn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth Iechyd Glan y Môr ac yn Gyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Abertawe.

Yn dilyn gyrfa mewn addysg, ymddeolodd **Dr Haydn Edwards** fel Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg Menai yn 2009. Ar hyn o bryd, mae'n un o Ymddiriedolwyr Amgueddfa Cymru, yn Gadeirydd Partneriaeth Ymgynghorol Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru ac yn Gadeirydd ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar gyfer Rheilffordd Llyn Padarn.

### Uwch swyddogion

**Mrs Ann Keane** – Prif Swyddog Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifo
**Mr Simon Brown** – Cyfarwyddwr Strategol
**Mr Meilyr Rowlands** – Cyfarwyddwr Strategol

Mae Estyn yn cynnal cofrestr buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd a chofrestr buddiannau ar gyfer yr holl gyflogeion parhaol, y rhai sydd ar secondiad a staff dros dro. Nid oes gan yr un aelod o'r Bwrdd swydd cyfarwyddwr na buddiannau arwyddocaol eraill a all wrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli.

## Cyflogau

Rhoddir manylion am gyflog Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ac uwch swyddogion eraill o Fwrdd Estyn yn yr Adroddiad Cyflogau sydd wedi'i gynnwys yn Adran 2 (Cyfrifon blynyddol 2010-11).

Ni chaiff cyfarwyddwyr anweithredol eu talu, ond gallant hawlio honorariwm misol o £423 (£82 y mis ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio) a chostau teithio a chynhaliaeth, yn ogystal â thaliadau honorariwm am waith ymgynghorol ychwanegol fel cymryd rhan mewn paneli recriwtio. Yn 2010-2011, cyfanswm gwerth yr hawliadau honorariwm oedd £21,286.00, a hawliwyd cyfanswm o £1,169.00 i ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth hefyd.

## Y Pwyllgor Archwilio

Caiff y Pwyllgor Archwilio, sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol o Fwrdd Strategol Estyn, ei gadeirio gan un o'r cyfarwyddwyr anweithredol. Mae'r Pwyllgor yn cynorthwyo'r Swyddog Cyfrifo yn ei gyfrifoldeb/chyfrifoldeb dros ystyriaethau risg, rheoli, llywodraethu a sicrwydd, a chafwyd presenoldeb llawn yn ei bedwar cyfarfod yn ystod 2010-2011. Ni fu'n rhaid i'r Pwyllgor ystyried unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol na materion yn ymwneud â barnu neu reolaeth yn ystod y flwyddyn.

# Adran 2
# Cyfrifon blynyddol 2010-11

## Sylwebaeth ar reolaeth

### Fformat y cyfrifon

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan Atodlen 6(5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn unol â'r cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.  Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd hwnnw gan Estyn yn Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW.

Mae'r cyfrifon hyn yn adlewyrchu asedau, rhwymedigaethau ac alldro ariannol Estyn. Nid oes ganddo is-gwmnïau.

### Gwybodaeth statudol gefndir a chyllid

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.  Corff y Goron ydyw, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992.  Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ond yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

### Prif weithgareddau

Mae gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ystod eang o gyfrifoldebau arolygu statudol.  Caiff y cyfrifoldebau hyn eu cyflawni trwy raglen arolygu flynyddol sy'n cynhyrchu adroddiadau a data ar bob sector addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a dyma brif faes gweithgarwch Estyn o ran yr adnoddau a ddefnyddir.

Yn ogystal, mae Estyn yn ymgymryd ag ystod o adolygiadau ac ymchwiliadau thematig bob blwyddyn, y cytunir arnynt â Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.  Mae'r rhain wedi'u cynllunio i roi cyngor i lywio datblygu, gweithredu ac adolygu polisi cenedlaethol.  Mewn rhai achosion, mae'r Prif Arolygydd hefyd yn dechrau ei hadolygiadau ac ymchwiliadau ei hun.

### Prif nod ac amcanion gweithredol

Yn 2010-2011, prif nod Estyn oedd codi safonau ac ansawdd mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a hynny trwy'r amcanion strategol canlynol:

- ddarparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru;
- hyrwyddo lledaenu arfer orau wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru; a
- datblygu Estyn fel sefydliad 'gwerth gorau' ac fel 'cyflogwr o ddewis'.

### Cyfle cyfartal

Polisi Estyn yw y dylai pob gweithiwr ac ymgeisydd am swydd gael cyfle cyfartal ar gyfer cyflogaeth a dyrchafiad ar sail eu gallu, eu cymwysterau a'u haddasrwydd ar gyfer y gwaith.

Ni ddylai unrhyw ymgeisydd am swydd neu weithiwr gael triniaeth lai ffafriol ar sail hil, lliw, rhyw, tueddfryd rhywiol, oedran, statws priodasol, anabledd, crefydd, cyfrifoldebau teulu/domestig neu batrymau gwaith e.e. rhan-amser, ac ni ddylai unrhyw unigolion wynebu anfantais yn sgil amodau neu ofynion na ellir eu cyfiawnhau.

Mae Estyn yn dilyn Cod Ymarfer y Gwasanaeth Sifil ar gyfer cyflogi pobl anabl, sy'n ceisio sicrhau na ddigwydd unrhyw wahaniaethu ar sail anabledd, a bod cyflogaeth a dyrchafiad mewn gyrfa yn Estyn wedi'i seilio'n llwyr ar allu, cymwysterau ac addasrwydd ar gyfer y gwaith.

### Data absenoldebau salwch

| **Prif fesurau** | | |
|---|---|---|
| Mesur | **2010-2011** | 2009-2010 |
| Cyfradd absenoldeb salwch | 2.37% | 3.16% |
| Cyfran y staff yn cronni absenoldeb salwch | 49.5% | 46.7% |
| Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollwyd fesul cyflogai | 5.4 diwrnod | 7.5 diwrnod |
| Cyfartaledd y cyfnod absenoldeb | 5.66 diwrnod | 6.76 diwrnod |
| Achlysuron absenoldeb salwch | 99 achlysur | 112 achlysur |

### Lledaenu gwybodaeth

Mae Estyn yn annog rhannu gwybodaeth a syniadau, ac yn ceisio manteisio'n llawn ar dechnoleg gyfoes i gyflawni'r nodau hyn. Mae gan Estyn wefan lle y gellir cael gwybodaeth am y sefydliad, ynghyd â'i adroddiadau a'i gyngor. Mae cyhoeddiadau ar y safle hwn wedi'u seilio ar dystiolaeth arolygu sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau ym maes addysg a hyfforddiant. Mae safle mewnrwyd ar gael i'r holl staff hefyd ar lwyfan Microsoft SharePoint. Mae Estyn yn cyflwyno 'Materion Gwaith' i'r holl staff yn rheolaidd, sy'n rhoi gwybodaeth a'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â pholisïau, gweithdrefnau, arweiniad cyffredinol a digwyddiadau sy'n effeithio ar staff a'r sefydliad cyfan. Sefydlwyd grwpiau rheoli strwythuredig i drafod a lledaenu gwybodaeth ar lefelau strategol, corfforaethol a gweithredol. Cynhelir cyfarfodydd corfforaethol a chyfarfodydd grŵp yn rheolaidd i rannu syniadau a gwybodaeth. Caiff deilliannau o gyfarfodydd eu rhannu trwy gofnodion sydd ar gael i staff. Mae Estyn yn gweithredu nifer o brotocolau gyda chyrff cyhoeddus eraill, trwy Femoranda o Ddealltwriaeth yn bennaf.

### Cynaliadwyedd

Y llynedd, gwnaethom barhau â'n hymroddiad tuag at gynaliadwyedd trwy weithio i gyflwyno ein cynllun gweithredu amgylcheddol er mwyn cadw ein hachrediad cynaliadwyedd 'Y Ddraig Werdd' (mae mwy o fanylion am hwn ar gael yn Adran 1 yr adroddiad hwn o dan 'Amcan 4'). Mae ein prosesau arolygu hefyd yn cynnwys

edrych ac adrodd ar gynaliadwyedd, a'i hyrwyddo o fewn darparwyr addysg a hyfforddiant unigol.

**Polisi talu**

Yn 2010-11, fe wnaethom weithio i gydymffurfio â'n cyfrifoldebau dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, i dalu anfonebau diamheuol cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf. Cyflawnwyd hyn ar gyfer 99.9% o'r holl gyfryw daliadau a wnaed yn 2010-2011 (2009-2010: 99.9%).

**Digwyddiadau'n ymwneud â data personol**

Yn Adroddiad Cynnydd Interim Swyddfa'r Cabinet ar Weithdrefnau Trin Data, a gyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2007 (*Adroddiad Swyddogol*, colofn 98WS), gwnaeth y Llywodraeth ymrwymiad y byddai adrannau'r llywodraeth yn cynnwys gwybodaeth am reoli risg yn eu hadroddiadau blynyddol. Yn unol â hynny, mae gofyn i Estyn adrodd ar wybodaeth mewn perthynas â digwyddiadau'n ymwneud â data personol yn ei gyfrifon adnoddau blynyddol.

**Cwmpas gofynnol data personol wedi'i ddiogelu**

Yn unol ag arweiniad y Cabinet, mae gofyn i Estyn nodi data sy'n cael ei ddal ganddo neu gan ei bartneriaid cyflwyno unigol, y gallai rhyddhau neu golli'r data hwn achosi niwed neu drallod i unigolion. Rhaid i hyn gynnwys, ar y lleiaf, yr holl ddata sy'n disgyn i un neu ddau o'r categorïau isod.

A Unrhyw wybodaeth sy'n cysylltu un neu fwy o bobl byw, adnabyddadwy â gwybodaeth amdanynt y byddai rhyddhau'r wybodaeth hon yn peri risg sylweddol o niwed neu drallod iddynt, fel y dangosir yn y tabl isod.

| 1. Un neu fwy o'r darnau o wybodaeth y gellir eu defnyddio ar y cyd â gwybodaeth sy'n eiddo cyhoeddus er mwyn adnabod unigolyn | Wedi'i gyfuno â | 2. Gwybodaeth am yr unigolyn hwnnw y byddai ei rhyddhau yn debygol o achosi niwed neu drallod |
|---|---|---|
| Enw / cyfeiriad (cartref neu fusnes neu'r ddau) / cod post / e-bost / rhifau ffôn / rhif trwydded yrru / dyddiad geni<br><br>[Sylwer bod rhif trwydded yrru wedi'i gynnwys yn y rhestr hon gan ei fod yn rhoi dyddiad geni a rhan gyntaf y cyfenw yn uniongyrchol.] | | Data personol sensitif fel y'i diffinnir gan A.2 Deddf Diogelu Data, gan gynnwys cofnodion sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol, ac aelodaeth grwpiau<br><br>DNA neu ôl bysedd / manylion banc, ariannol neu gardiau credyd / enw bedydd mam / rhif Yswiriant Gwladol / cofnodion treth, budd-daliadau neu bensiwn / cofnodion iechyd / cofnod cyflogaeth / presenoldeb neu gofnodion ysgol / deunydd sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys amddiffyn plant a thai |

Nid yw'r rhestrau uchod yn hollgynhwysfawr.

B Unrhyw ffynhonnell wybodaeth am 1,000 neu fwy o unigolion adnabyddadwy, heblaw gwybodaeth sy'n eiddo cyhoeddus.

Gallai hon fod yn gronfa ddata gyda 1,000 neu fwy o gofnodion yn cynnwys ffeithiau sy'n cael eu crybwyll ym mlwch 1, neu ffolder neu yriant electronig sy'n cynnwys 1,000 neu fwy o gofnodion am unigolion. Eto, mae hon yn safon ofynnol. Gall gwybodaeth am niferoedd llai o unigolion fod yn deilwng o'i hamddiffyn oherwydd natur yr unigolion, natur neu ffynhonnell y wybodaeth, neu raddfa'r wybodaeth.

Gall digwyddiadau, y byddai eu datgelu ynddo'i hun yn peri risg annerbyniol o niwed, gael eu heithrio yn unol â'r eithriadau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu gallant fod yn destun cyfyngiadau deddfwriaeth arall y DU ynghylch gwybodaeth.

| **Crynodeb o ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol wedi'i ddiogelu yr adroddwyd yn ffurfiol amdanynt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2010-2011** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad y digwyddiad (mis)** | **Natur y digwyddiad** | **Natur y data dan sylw** | **Nifer y bobl bosibl yr effeithiwyd arnynt** | **Camau hysbysu** |
| Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| **Camau pellach ar y risg gwybodaeth** | Ni fu unrhyw ddigwyddiadau i adrodd amdanynt. Fodd bynnag, bydd Estyn yn parhau i fonitro ac asesu ei risgiau gwybodaeth er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a sicrhau gwelliant parhaus systemau. | | | |

| **Crynodeb o ddigwyddiadau eraill yn ymwneud â data personol wedi'i ddiogelu yn 2010-2011** | | |
|---|---|---|
| Mae digwyddiadau yr ystyriodd y Rheolwr Data nad oeddent yn dod o fewn y meini prawf adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ond sydd wedi'u cofnodi'n ganolog yn Estyn wedi'u rhoi yn y tabl isod. Nid yw digwyddiadau bychan, lleol yn cael eu cofnodi'n ganolog ac ni chânt eu cynnwys yn y ffigurau hyn. | | |
| **Categori** | **Natur y digwyddiad** | **Cyfanswm** |
| I | Colli offer neu ddyfeisiadau electronig nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol, neu ddogfennau papur, o safleoedd diogel y Llywodraeth | Dim |
| II | Colli offer neu ddyfeisiadau electronig nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol, neu ddogfennau papur, o'r tu hwnt i safleoedd diogel y Llywodraeth | Dim |
| III | Gwaredu offer neu ddyfeisiadau electronig nad ydynt wedi'u diogelu'n ddigonol, neu ddogfennau papur, mewn modd anniogel | Dim |
| IV | Datgelu heb awdurdod | Dim |
| V | Arall | Dim |

<table>
<tr><th colspan="15">Cyfanswm nifer y digwyddiadau yn ymwneud â data personol wedi’i ddiogelu blwyddyn ar ôl blwyddyn cyn 2010-2011</th></tr>
<tr><th colspan="7">Cyfanswm nifer y digwyddiadau yn ymwneud â data personol wedi’i ddiogelu yr adroddwyd yn ffurfiol amdanynt i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ôl rhif categori</th><th></th><th colspan="7">Cyfanswm nifer y digwyddiadau yn ymwneud â data personol, yn ôl rhif categori</th></tr>
<tr><th></th><th>I</th><th>II</th><th>III</th><th>IV</th><th>V</th><th>Cyfanswm</th><th></th><th></th><th>I</th><th>II</th><th>III</th><th>IV</th><th>V</th><th>Cyfanwm</th></tr>
<tr><td>2009-2010</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td></td><td>2009-2010</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td></tr>
<tr><td>2008-2009</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td></td><td>2008-2009</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td></tr>
<tr><td>2007-2008</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td></td><td>2007-2008</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td></tr>
<tr><td>2006-2007</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td></td><td>2006-2007</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td><td>Dim</td></tr>
</table>

## Canlyniadau am y flwyddyn

Yn 2010-11, cyfanswm gwariant refeniw Estyn, net o incwm, oedd £11.3 miliwn (2009-10: £13.2 miliwn). Nodir manylion y canlyniadau am y flwyddyn yn y cyfrifon atodedig.

Cyllideb refeniw Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru oedd £13.08 miliwn. Trwy gydol y flwyddyn, rhoddodd Estyn wybod i Lywodraeth Cymru am ei ragamcan o wariant fel y gallai Llywodraeth Cymru gynnwys arbedion yn erbyn cyllideb Estyn yn ei chynlluniau gwario.

Fel sy’n wir ar gyfer y rhan fwyaf o adrannau’r gwasanaeth sifil, rhoddwyd targedau effeithlonrwydd caeth i Estyn fel rhan o’r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW). Er mwyn bodloni gostyngiadau i’r gyllideb flwyddyn ar ôl blwyddyn, roedd rhaid i Estyn roi arbedion ar waith ar unwaith. Roedd rhoi fframwaith arolygu newydd Estyn ar waith yn amserol, gan iddo greu cyfleoedd i helpu i fodloni’r heriau effeithlonrwydd a gyflwynwyd gan yr ACW. Dan fframwaith newydd Estyn, mae arolygiadau’n fyrrach o lawer ac yn fwy cymesur, felly mae angen llai o adnoddau llafur i’w cyflwyno. Hefyd, mae gweithredu’r fframwaith newydd, a gyflwynwyd ym mis Medi 2010, yn cynnwys symud oddi wrth system o arolygiadau ysgol a oedd yn cael eu cwblhau’n gyfan gwbl dan gontract i system lle caiff y mwyafrif o arolygiadau ysgol eu cynnal yn uniongyrchol gan staff Estyn. Cyflawnwyd dros £1 miliwn o arbedion gwariant yn ystod 2010-11 o ganlyniad uniongyrchol i roi’r fframwaith arolygu newydd ar waith; mae’r arbedion hyn yn ymwneud â lleihau costau arolygiadau dan gontract o ganlyniad i leihau maint a chwmpas arolygiadau (gan arwain at leihau prisiau contractau), a lleihau cyfanswm y contractau arolygu fel rhan o’r broses fewnol. Yn 2010-11, cynhaliodd Estyn 116 o arolygiadau o ysgolion a meithrinfeydd nas cynhelir gan ddefnyddio ei staff ei hun, yn ogystal â pharhau i gynnal pob arolygiad ôl-16 yn uniongyrchol (gyda nifer sylweddol llai o ‘arolygwyr ychwanegol’ allanol o gymharu â’r niferoedd a ddefnyddiwyd mewn arolygiadau ôl-16 yn flaenorol).

Mae ataliad recriwtio cyffredinol ar draws y Gwasanaeth Sifil wedi golygu y bu’n rhaid i Estyn gyflwyno ei raglen estynedig o arolygiadau dan arweiniad Estyn heb gynnydd cyfatebol mewn adnoddau staff. Gwnaethom lwyddo i gyflawni arbedion sylweddol yn erbyn ein cyllideb staff yn ystod y flwyddyn trwy beidio â llenwi nifer o swyddi rheolwyr a ddaeth yn wag yn ystod y flwyddyn; roedd hyn ar ben yr arbedion a gronnwyd trwy gydymffurfio â rhewi cyflogau’r Gwasanaeth Sifil. Mae’r ataliad recriwtio, ynghyd â’r angen i fodloni gostyngiadau pellach i’r gyllideb yn ystod y tair blynedd nesaf, wedi’i gwneud yn ofynnol i Estyn ganolbwyntio adnoddau ar gyfrifoldebau statudol craidd ac wedi golygu, er enghraifft, y bu’n rhaid i ni gwtogi rhai o’n gweithgareddau arfaethedig. Er enghraifft, roeddem wedi bwriadu defnyddio’r arbedion adnoddau a gyflawnwyd yn erbyn amcan strategol 1 (arolygu) i ddatblygu a gweithredu amcan strategol 3 (gweithgareddau arfer orau). Ceir mwy o fanylion am gyflawni yn erbyn pob un o’n hamcanion strategol yn Adran 1 yr adroddiad hwn.

Mae arbedion eraill yn ystod y flwyddyn a gyfrannodd at yr arbedion yr adroddwyd arnynt yn y cyfrifon hyn yn cynnwys gostyngiadau gwariant yn erbyn: costau rhedeg, yn fwyaf amlwg mewn perthynas ag adeiladau swyddfa a gweinyddu (rhenti, gwasanaethau, deunyddiau papur ac ati); systemau TG (dibrisiant); a chostau’n gysylltiedig â staff, fel recriwtio a hyfforddi.

Mae'r ffigurau yn Nodyn 6 y cyfrifon yn cyflwyno arolwg cyffredinol o'r prif feysydd lle mae gwariant wedi lleihau ers y flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2011 yn dangos rhwymedigaethau net o £0.210 miliwn (2009-10: £1.4 miliwn). Nid yw'n anarferol i fantolen Estyn ddangos sefyllfa o ddiffyg ar ddiwedd blwyddyn ariannol oherwydd lefel uchel y credydwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r credydwyr hyn yn ganlyniad arferol o drefniadau cytundebol Estyn ar gyfer arolygiadau ysgol, gan na wneir taliad am gontract nes bod Estyn wedi derbyn yr adroddiad arolygu. Dan ofynion statudol, gellir derbyn yr adroddiad hyd at 45 diwrnod ar ôl cwblhau'r arolygiad. Mae lefel y credydwyr 'arolygu' wedi lleihau ers y flwyddyn flaenorol a bydd yn parhau i wneud hynny wrth i Estyn gynyddu'n raddol nifer yr arolygiadau a gynhelir yn uniongyrchol gan staff Estyn.

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, dan drefniadau darparwyr gwasanaeth a thaliadau y gyflogres, mae ffigur y credydwyr hefyd yn cynnwys croniad yn y cyfrifon ar gyfer ein cyflogau ym mis Mawrth 2011 lle nad yw taliad yr anfoneb gan Estyn wedi cael ei glirio. Bydd Estyn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i fodloni pob un o'r rhwymedigaethau uchod pan fyddant yn aeddfedu yn y flwyddyn ariannol 2011-2012 ac, yn unol â hynny, mae wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

Ar gyfer 2010-11, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllideb cyfalaf o £.4 miliwn i Estyn. Mae gan Estyn ofynion gwariant cyfalaf blynyddol yn ymwneud â systemau ac offer Technoleg Gwybodaeth (TG) yn bennaf. Fel rhan o'i arbedion effeithlonrwydd, gohiriodd Estyn adnewyddiad mawr o'i offer TG a ddisgwyliwyd yn 2010-11 ac, yn ystod y flwyddyn, aethom i fân wariant cyfalaf (£10,000) yn unig wrth ddatblygu deunyddiau hyfforddiant arolygu i'w defnyddio yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-16 (sydd i'w weld yn nodyn 8 y cyfrifon fel 'ased anniriaethol').

**Edrych ymlaen**

Fel rhan o'r broses o symud ymlaen â'n harolygiadau mewnol o ysgolion, byddwn yn ymgorffori ein trefniadau newydd ac yn monitro eu heffeithiolrwydd, gan wneud unrhyw fireiniadau angenrheidiol yng ngoleuni'r monitro hwnnw. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i adolygu effaith ein had-drefnu mewnol diweddar, er mwyn sicrhau bod ein busnes yn parhau'n effeithlon a'i fod yn ddigon hyblyg i wynebu heriau newydd.

Mae Estyn eisoes wedi llwyddo i wneud arbedion sylweddol i fodloni'r gostyngiadau i'n cyllideb yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn unol â'r ACW, a byddwn yn parhau i roi ein rhaglen arbedion ar waith. Bydd hyn yn gofyn i ni fod â chynlluniau llafur hyblyg sy'n ein galluogi i fyw o fewn cyfyngiadau'r gyllideb heb gyfaddawdu ar ansawdd ein busnes craidd. Byddwn yn cadw ffocws cryf ar ganfod dulliau gwell o wella ansawdd addysg a hyfforddiant i bob dysgwr yng Nghymru.

Er y bu'n rhaid i ni leihau gwariant ar rai meysydd gweithgarwch, byddwn yn parhau i hyrwyddo lledaenu arfer orau mewn cyflwyno addysg a hyfforddiant. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd ein harweiniad i ddarparwr ar hunanarfarnu, sef y man cychwyn ar gyfer ein trefniadau arolygu newydd. Byddwn yn cydweithio â'r sectorau

yr ydym yn eu harolygu i goladu a lledaenu tystiolaeth o arfer sy'n arwain y sector a welir yn y maes.

Byddwn yn cryfhau ein partneriaethau â rhanddeiliaid ac yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i lywio polisi, ac yn parhau i gydlynu gwaith â chyrff arolygu, archwilio ac adolygu eraill, mewn ystod o arolygiadau ar y cyd a gwaith thematig, yn ogystal â nifer o fentrau ar y cyd er budd trigolion Cymru.

Mae mwy o wybodaeth am fframwaith arolygu Estyn a'n hamcanion strategol allweddol ar gyfer y tair blynedd nesaf ar gael yn ein Cynllun Strategol 2010-2013 a'n Cynllun Blynyddol 2011-2012 ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk.

**Archwilydd**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio cyfrifon Estyn yn unol ag Atodlen 6 (6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Hyd y mae'r Swyddog Cyfrifo yn ymwybodol:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Estyn yn ymwybodol ohoni; ac
- mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i'w gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i bennu bod archwilwyr Estyn yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Digwyddiadau ers diwedd y flwyddyn ariannol**

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.



**Ann D Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifo

15 Gorffennaf 2011

## Adroddiad cyflogau

Pennir cyflog Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan baragraff 3 Atodlen 2 Deddf Addysg 2005.

**Ar gyfer uwch aelodau staff parhaol eraill y Bwrdd, pennwyd eu cyflog gan Bwyllgor Cyflogau Estyn, sy'n cynnwys y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a thri chyfarwyddwr anweithredol, yn unol ag arweiniad Swyddfa'r Cabinet ar gyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil.**

Wrth lunio'i argymhellion, mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymell pobl fedrus a chymwysedig addas i arfer eu cyfrifoldebau gwahanol;
- meincnodi gwybodaeth sydd ar gael gan Swyddfa'r Cabinet ac adrannau eraill y Llywodraeth, gan gynnwys y rhai sydd agosaf at Estyn o ran lleoliad a math o waith;
- y cyllid sydd ar gael i'r adran a'r cyngor sydd ar gael yn flynyddol gan Swyddfa'r Cabinet; a
- pholisïau'r Llywodraeth ar gyfer gwella cyflwyno gwasanaeth cyhoeddus a rôl rheoli perfformiad wrth sicrhau a chydnabod gwerth i'r sefydliad a gwobrwyo cyfraniadau at amcanion busnes ac amcanion corfforaethol.

Mae Pwyllgor Cyflogau Estyn yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o ran ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion. O ganlyniad i gynlluniau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant i leihau gwariant dros y tair blynedd nesaf, mae Estyn wedi lleihau nifer ei swyddi yn yr uwch wasanaeth sifil o bedair i dair, trwy gadw un swydd wag.

Wrth gytuno ar godiadau cyflog ar gyfer staff unigol, rhoddodd Pwyllgor Cyflogau Estyn ystyriaeth benodol i'r meini prawf canlynol:

- twf yr unigolyn ei hun o ran gallu;
- yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd;
- hyder ym mherfformiad yr unigolyn yn y dyfodol.

Wrth ystyried bonysau staff, ystyriwyd y ffactorau canlynol:

- p'un a fodlonwyd amcanion ai peidio, ac i ba raddau;
- sut y bodlonwyd yr amcanion, ac yn benodol, p'un a ddangoswyd ymddygiad arweinyddiaeth a medrau proffesiynol ai peidio, ac i ba raddau;
- graddfa anhawster neu rwyddineb bodloni amcanion yn sgil digwyddiadau gwirioneddol.

Ym mis Mai 2010, cyhoeddwyd bod cyflogau sylfaenol yn cael eu rhewi ar draws y Gwasanaeth Sifil a daeth hyn i rym ar gyfer y flwyddyn perfformiad 2009-10. Caiff cyflogau eu rhewi tan fis Ebrill 2013. Ni chafodd unrhyw uwch aelodau staff ar Fwrdd Estyn godiad cyflog na thaliad bonws yn ystod 2010-11. Roedd argymhelliad ar gyfer taliad bonws ar gael i Ann Keane mewn perthynas â'i pherfformiad yn ei swydd yn Estyn cyn iddi dderbyn swydd y Prif Arolygydd, ond mi wrthododd y taliad hwn.

**Contractau gwasanaeth**

Gwneir penodiadau i'r Gwasanaeth Sifil yn unol â Chod Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, sy'n gofyn am benodi yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored, ond mae hefyd yn cynnwys yr amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir yn wahanol isod, mae gan y swyddogion y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â hwy swyddi penagored.  Byddai terfynu cynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodwyd yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Nodir y rheolau penodi yng Nghod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommissioners.gov.uk.

## Hawliau tâl (gan gynnwys cyflog) a phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl a buddion pensiwn uwch swyddogion Estyn.

### Tâl (cyflog a thaliadau mewn nwyddau) *

| | 2010-11 | | 2009-10 | |
|---|---|---|---|---|
| **Swyddogion** | Cyflog<br><br>£'000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) | Cyflog<br><br>£'000 | Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) |
| Ann Keane<br>Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | **100–105** | **-** | **85–90** | **-** |
| Simon Brown<br>Cyfarwyddwr Strategol | **70-75** | **-** | **70-75** | **-** |
| Meilyr Rowlands<br>Cyfarwyddwr Strategol | **70–75** | **-** | **30–35**<br><br>**(70–75 cyfwerth â blwyddyn lawn)** | **-** |

### Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; taliadau am berfformiad neu daliadau bonws; goramser; hawliau wedi'u cadw i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa preifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n destun trethi'r DU.  Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wnaed gan Estyn ac sydd felly'n cael eu cofnodi yn y cyfrifon hyn.

### Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin fel tâl trethadwy gan Gyllid a Thollau EM.

## Buddion pensiwn*

| Swyddogion | Pensiwn cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn fel ar 31/3/11 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd go iawn mewn pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/11 | Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/10[3] (ailddatganwyd) | Cynnydd go iawn mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ann Keane Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru | 45 - 50 a chyfandaliad o 145 - 150 | 10 – 12.5 a chyfandaliad o 35 – 37.5 | 1086 | 800 | 265 |
| Simon Brown Cyfarwyddwr Strategol | 30 - 35 a chyfandaliad o 60 – 65 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 0 – 2.5 | 574 | 523 | 4 |
| Meilyr Rowlands Cyfarwyddwr Strategol | 25 - 30 a chyfandaliad o 85 – 90 | 0 – 2.5 a chyfandaliad o 2.5 - 5 | 533 | 462 | 31 |

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Caiff buddion pensiwn eu darparu drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 30 Gorffennaf 2007, gall gweision sifil fod mewn un o bedwar cynllun buddion diffiniedig: naill ai cynllun 'cyflog terfynol' (**classic**, **premium** neu **classic plus**); neu gynllun 'gyrfa lawn' (**nuvos**). Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u hariannu, a thelir cost buddion gan arian y pleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy dan **classic**, **premium**, **classic plus** a **nuvos** eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Gall gweithwyr a ymunodd o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'pryniant arian' o ansawdd da, gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

[3] Newidiwyd y ffactorau a ddefnyddir i gyfrifo Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETVau) yn 2010/11. Cyfrifiwyd y CETVau ar 31/3/10 a 31/3/11 gan ddefnyddio'r ffactorau newydd, er mwyn cysondeb. Felly, mae'r CETV ar 31/3/10 yn wahanol i'r ffigur cyfatebol yn adroddiad y llynedd, a gyfrifiwyd gan ddefnyddio'r ffactorau blaenorol.

Mae cyfraniadau gweithwyr wedi'u gosod ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer **classic** a 3.5% ar gyfer **premium**, **classic plus** a **nuvos**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80 y cyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â phensiwn o dair blynedd yn daladwy wrth ymddeol. Mae buddion **premium** yn cronni ar gyfradd o 1/60 yr enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob diben, mae **classic plus** yn gynllun hybrid gyda buddion mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn unol â **classic** a'r buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002 ymlaen wedi'u cyfrifo yn yr un modd ag yn **premium**. Yn **nuvos**, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth yn y cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), caiff 2.3% o enillion pensiynadwy'r aelod yn y flwyddyn honno eu credydu i'w gyfrif pensiwn enilledig, a chodir cyfradd y pensiwn cronedig yn unol â'r Ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y cyfyngiadau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliad yw'r cyfrif pensiwn **partneriaeth**. Mae'r cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) mewn pensiwn rhanddeiliad a ddewisir gan y gweithiwr o banel o dri darparwr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn cyfateb y cyfraniad hwnnw hyd at uchafswm o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol yn sgil iechyd gwael).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl ei dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn syth ar ôl peidio â bod yn aelod o'r cynllun os ydynt eisoes wedi cyrraedd oedran pensiynadwy neu'n mynd y tu hwnt iddo. Yr oedran pensiwn ar gyfer aelodau **classic**, **premium** a **classic plus** yw 60 oed, a 65 oed ar gyfer aelodau **nuvos**.

Mae mwy o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld ar y wefan, sef www.civilservice-pensions.gov.uk

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod


Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion y rhoddwyd gwerth arnynt yw buddion yr aelod a gronnwyd ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn eu cyn-gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn yn sgil eu haelodaeth lwyr yn y cynllun pensiwn, ac nid eu gwasanaeth mewn swydd uwch yn unig y mae datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod yn sgil prynu buddion pensiwn ychwanegol ganddo gyda'i arian ei hun. Caiff CETV ei gyfrifo o fewn yr arweiniad a'r fframwaith a bennir gan

Sefydliad a Chyfadran yr Actiwarïaid, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu ostyngiad posibl i fuddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gaiff buddion pensiwn eu hawlio.

**Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig yn sgil chwyddiant, cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisiant y farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Talwyd taliadau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a luniwyd gan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Caiff costau ymadael eu cyfrifo'n llawn yn ystod y flwyddyn ymadael. Pan fydd yr adran wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr adran ac nid gan gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil. Telir costau ymddeol yn sgil iechyd gwael gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.



**Ann D Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a'r Swyddog Cyfrifo

15 Gorffennaf 2011

## Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifo

Dan Atodlen 6(5) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, mae Trysorlys EM wedi rhoi cyfarwyddyd i Estyn baratoi cyfrifon adnoddau ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn rhoi manylion yr adnoddau a gafwyd, a gadwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail croniadau, ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Estyn ac o alldro net ei adnoddau, yr adnoddau a gymhwyswyd i amcanion, newidiadau i ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM yn unol â pharagraff 5 Atodlen 6 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson;

- llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;

- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, fel y nodwyd yn *Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth*, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon; a

- pharatoi'r cyfrifon ar sail 'busnes gweithredol'.

Mae'r Trysorlys wedi penodi Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn Swyddog Cyfrifo Estyn. Caiff cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Estyn, eu hamlinellu ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo, a ddosbarthwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn Cyfrifon y Llywodraeth (Y Llyfrfa).

# Datganiad ar reolaeth fewnol

## 1 Cwmpas cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Estyn, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd i mi yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Mae Estyn yn gorff llywodraethol anweinidogol sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi, dan adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Caiff adnoddau cyllideb eu darparu i Estyn trwy'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru.

Mae cytundeb Swyddog Cyfrifo rhwng y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru a minnau yn nodi ein cyfrifoldebau a'n perthynas fel Swyddogion Cyfrifo priodol. Er gwaethaf y disgwyliad y bydd cyswllt arferol rhwng Estyn a Llywodraeth Cymru ar faterion o reolaeth ac atebolrwydd ariannol yn cael ei reoli trwy'r Cytundeb a grybwyllir uchod, mae'n parhau i fod yn agored i mi gyfeirio materion yn uniongyrchol at yr Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer Llywodraeth Cymru, pe bawn yn teimlo ei bod yn briodol gwneud hynny.

## 2 Diben y system reolaeth fewnol

Bwriad y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg at lefel resymol, yn hytrach na dileu pob risg o fethiant i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall ond gynnig sicrwydd rhesymol o ran effeithiolrwydd ac nid sicrwydd absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus sydd â'r bwriad o ganfod a blaenoriaethu risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Estyn, arfarnu'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Bu'r system hon o reolaeth fewnol ar waith yn Estyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd ag arweiniad y Trysorlys.

## 3 Gallu i ddelio â risg

Mae polisi rheoli risg Estyn yn pennu:

- diben trefniadau rheoli risg Estyn;
- egwyddorion rheoli risg;
- cyfrifoldebau perthynol yn Estyn;
- goddefiant ac awydd o ran risg;

- fframwaith rheoli risg Estyn a sut y bydd yn gweithio; a
- sut mae rheoli risg yn cyfrannu at roi sicrwydd.

Dan y polisi, mae rheolwyr llinell ar Raddfa 7 ac yn uwch yn gyfrifol am sicrhau bod pawb yn eu timau yn deall eu cyfrifoldebau rheoli risg ac am egluro faint o rym a roddir i staff i gymryd risg yn unol â'r polisi risg ac arweiniad arall. Caiff staff eu cyflwyno i system risg Estyn fel rhan o'u cyfnod sefydlu yn y sefydliad, ac i reoli risg mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u swydd a'u cyfrifoldebau. Mae angen proffiliau rheoli risg mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer pob prosiect neu ddarn sylweddol o waith.

**4 Y fframwaith risg a rheoli**

Caiff datganiadau ar reolaeth fewnol eu cynhyrchu gan staff Estyn ar lefel Cyfarwyddwr Cynorthwyol i gefnogi'r datganiadau ar reolaeth fewnol a luniwyd gan Gyfarwyddwyr Strategol sydd, yn eu tro, yn cefnogi'r datganiad hwn.

Mae Estyn yn cadw cofrestr risg gyfansawdd sy'n dangos risgiau ar lefel strategol a gweithredol (gan gynnwys risgiau allweddol ar gyfer prosiectau a rhaglenni penodol a chofrestr benodol ar gyfer Risgiau Gwybodaeth). Caiff cofrestrau risg eu diweddaru o leiaf bob chwarter a'u hadolygu'n flynyddol ar lefel timau rheoli uwch a chorfforaethol. Mae hyn yn sicrhau y caiff risgiau strategol a chorfforaethol, gan gynnwys risgiau gwybodaeth, eu nodi, eu hasesu'n wrthrychol a'u rheoli'n weithgar. Fel y cyfeiriwyd ato'n gynharach, mae polisi rheoli risg Estyn yn nodi ei ymagwedd tuag at oddefiant risg drwy ddiffinio'r hyn sy'n risgiau derbyniol a'r hyn sy'n feysydd risg a waherddir. Cafodd y gweithdrefnau rheoli risg eu hadolygu yn ystod 2010-11 a pharatowyd cofrestr risg gyfansawdd, sy'n hwyluso nodi ystyriaethau trawsbynciol a chamau cyd-ddibynnol i leddfu risgiau.

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yng ngweithgarwch y sefydliad drwy'r gofyniad i'r holl waith sylweddol gael ei asesu'n briodol ar gyfer risg, a'i reoli yn unol â'r asesiadau hynny, gan bawb dan sylw.

Mae cynnal ymwybyddiaeth o risg, gan gynnwys eu hadnabod yn gynnar a'u rheoli'n weithgar, yn cael ei gyflawni ar bob lefel yn y sefydliad drwy adolygu'r gofrestr risg yn rheolaidd a thrwy'r gofyniad i reolwyr gwblhau datganiadau o reolaeth fewnol wedi'u seilio ar reoli risgiau gweithredol. Mae datganiadau'n cynnwys gofynion i adrodd ar achosion o ddatgelu heb awdurdod neu golli data personol.

Yn ogystal â'i Bolisi Rheoli Risg, mae gan Estyn Bolisi Rheoli Risgiau Gwybodaeth ar wahân ac mae'n cynnal Cofrestr Risgiau Gwybodaeth benodol. Mae holl staff Estyn yn cwblhau hyfforddiant gorfodol mewn llywodraethu gwybodaeth ac mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â Pholisi Sicrhau Gwybodaeth Estyn. Hefyd, rhaid i gontractwyr a phartneriaid eraill Estyn weithio o fewn y Polisi Sicrhau Gwybodaeth. Yn unol â gofynion y llywodraeth, mae Estyn wedi penodi Uwch Berchennog Risgiau Gwybodaeth ac mae'n nodi asedau gwybodaeth i'w trosglwyddo i Berchnogion Asedau Gwybodaeth dynodedig.

Pan gaiff systemau neu weithdrefnau eu creu o'r newydd neu eu hadolygu, rhoddir risg wrth wraidd ystyriaethau Estyn ac rydym yn annog y rhai yr ydym yn cydweithio â nhw i ddefnyddio dull ar sail risg hefyd ac ymuno â ni i asesu a rheoli risg. Er enghraifft, caiff contractau eu dyfarnu i gontractwyr arolygiadau ysgolion ar sail sy'n cynnwys y modd y maent yn adnabod ac yn rheoli risgiau. Yn yr un modd, mae gan Estyn un fforwm ar y cyd sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol a fforymau ar gyfer pob sector ar wahân sy'n cwmpasu agweddau gwahanol ar ein busnes craidd, i gynnig safbwynt allanol ar ein gwaith a'n datblygiad; mae hyn yn ychwanegu sicrwydd ar ben yr her a ddarperir gan gyfarwyddwyr anweithredol Estyn.

## 5 Adolygu effeithiolrwydd


Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf i gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o effeithiolrwydd y system ar gyfer rheolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol yn Estyn sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith o reolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Cefais fy nghynghori ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan Bwyllgor Archwilio Estyn.

Darperir her allanol trwy Bwyllgor Archwilio Estyn gyda'i aelodau annibynnol a'i gadeirydd annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Swyddog Cyfrifo yn ei chyfrifoldeb am faterion risg, rheolaeth, llywodraethu a sicrwydd cysylltiedig yn Estyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio, gyda chymorth archwilio mewnol ac allanol, yn cynnal hunanasesiad blynyddol o waith a pherfformiad y Pwyllgor sy'n helpu aelodau i lunio cynllun gweithredu ar gyfer y Pwyllgor. Darperir mwy o her allanol gan Fwrdd Strategaeth Estyn, a chrybwyllir hyn yn Adran 1 yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon hyn. Mae cyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys pennu awydd Estyn am risg a sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n briodol ac yn effeithiol.

Darperir gwasanaeth archwilio mewnol Estyn gan Deloitte LLP. Gweithredodd Deloitte yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth tra'n ymgymryd ag archwiliadau yn unol â strategaeth archwilio tair blynedd a chynllun blynyddol cytûn. Mae'r gwaith sy'n cael ei gwblhau gan ein harchwilwyr mewnol yn arwain at adroddiadau sy'n cynnwys barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella i mi. Ar gyfer yr holl archwiliadau yr ymgymerwyd â nhw mewn perthynas â'r flwyddyn a gwmpesir yn y cyfrifon hyn, roedd Deloitte yn gallu rhoi sicrwydd bod risgiau sy'n berthnasol i gyflawni amcanion ym mhob maes a archwilir yn cael eu rheoli'n briodol. Rhennir yr adroddiadau hyn gyda Phwyllgor Archwilio Estyn. Eir i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd trwy adroddiadau archwilio mewnol ac allanol er mwyn sicrhau bod gwella parhaus ar waith. Rydym wedi sefydlu system olrhain drosfwaol a ddefnyddir gan y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio i fonitro cwblhau a chydymffurfio ag argymhellion archwilio.

Gall Estyn fanteisio ar ystod o wasanaethau gan Lywodraeth Cymru trwy gytundebau lefel gwasanaeth ffurfiol. Dan y trefniadau hyn, gall Estyn weld unrhyw adroddiad archwilio ac unrhyw gynllun gweithredu i fynd i'r afael â chanfyddiadau a/neu argymhellion yr archwilydd sy'n ymwneud â gwasanaethau a ddarperir i Estyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Datganiad o Reolaeth Fewnol, a lofnodwyd gan y Fonesig

Gillian Morgan, yn rhoi sicrwydd yn y pen draw am effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol ar gyfer y cyfryw wasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.



**Ann D Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo

15 Gorffennaf 2011

## Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Estyn: Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011 dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Alldro Adnoddau, y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisïau cyfrifo a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gyflogau y disgrifiwyd yn yr adroddiad hwnnw ei bod wedi'i harchwilio.

### Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwilydd

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo, mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad ar Gyflogau, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM, a wneir yn ôl y gofynion hynny ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad ar gyflogau a fydd yn cael ei harchwilio yn unol â'r gyfraith berthnasol a chyda'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arfer Archwilio.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, p'un a ydynt wedi'u hachosi gan wall neu dwyll. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol ar gyfer amgylchiadau Estyn ac wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymolrwydd amcangyfrifon sylweddol a wnaed gan Estyn; a'r modd y cyflwynwyd y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Hefyd, mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol a'r wybodaeth nad yw'n ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a'r sylwebaeth ar reolaeth, er mwyn canfod unrhyw anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os wyf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol ymddangosiadol, rwyf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

### Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa yn Estyn ar 31 Mawrth 2011 ac o'i ofyniad arian net, alldro adnoddau net a'i gost gweithredu net, ar gyfer y flwyddyn a

ddaeth i ben bryd hynny; ac

- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

**Barn am Reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Barn am ystyriaethau eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998; ac

- mae'r wybodaeth sy'n cynnwys yr Adroddiad Blynyddol, y Sylwebaeth ar Reolaeth a'r rhan o'r Adroddiad ar Gyflogau nad yw wedi'i harchwilio, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Ystyriaethau yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r ystyriaethau canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nad yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiad ag arweiniad Trysorlys EM;

- na chadwyd cofnodion cyfrifo cywir;

- nad yw gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EM ynghylch cyflogau a thrafodion eraill wedi'u datgelu; neu

- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

19 Gorffennaf 2011

# Cyfrifon Blynyddol Estyn 2010-2011 (IFRS)

## Datganiad o Gyflenwad Llywodraeth Cymru

### Crynodeb o'r alldro adnoddau

*ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011*

| | | **2010-11** | | | **2010-11** | | | | 2009-10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **Amcangyfrif** | | | **Alldro** | | | | |
| | | Gwariant gros | Incwm | CYFAN-SWM NET | Gwariant gros | Incwm | CYFAN-SWM NET | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r Amcan arbediad/ (dros ben) | Alldro'r flwyddyn flaenorol (ailddatgan-wyd) |
| | | | | | | | | | |
| | | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cyfanswm y costau rhedeg | 4,5 a 6 | 12,680 | | 12,680 | 11,330 | (138) | 11,192 | (1,488) | 12,758 |
| Dibrisiant | 7 ac 8 | 400 | | 400 | 120 | | 120 | (280) | 450 |
| Cyfanswm yr adnoddau | | 13,080 | | 13,080 | 11,450 | (138) | 11,312 | (1,768) | 13,208 |
| | | | | | | | | | |
| **Gofyniad arian parod net** | 3 | | | | | | **11,709** | | **12,581** |

Rhoddir esboniad o'r amrywiant rhwng amcangyfrif ac alldro yn Nodyn 2.1 ac yn y Sylwebaeth ar Reolaeth.

Sylwer: Mae ffigurau alldro'r flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan i eithrio Costau Cyfalaf, nad ydynt yn berthnasol mwyach.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 58 i 70 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr** *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011*

| | Nodyn | Costau staff | Costau eraill | Incwm | Cyfanswm y costau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Rhaglen:** **Amcan strategol 1 –** *Darparu atebolrwydd cyhoeddus i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru.* | 4-6 | 3,735 | 2,873 | (138) | 6,470 |
| **Amcan strategol 2 –** *Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru* | 4-6 | 1,683 | 468 | - | 2,151 |
| **Amcan strategol 3 –** *Hyrwyddo lledaenu arfer orau wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant yng Nghymru* | 4-6 | 1,210 | 354 | - | 1,564 |
| **Amcan strategol 4 –** *Datblygu Estyn fel sefydliad 'gwerth gorau' ac fel 'cyflogwr o ddewis'* | 4-6 | 734 | 393 | - | 1,127 |
| **Cyfanswm yr alldro** | | **7,362** | **4,088** | **(138)** | **11,312** |
| **Amcangyfrif 2010/11** | | **7,840** | **5,240** | | **13,080** |
| **Cyfanswm yr alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif** | | **(478)** | **(1,152)** | **(138)** | **(1,768)** |
| **Alldro 2009/10** | | **7,358** | **6,103** | **(253)** | **13,208** |

Dangosir gwariant net yn erbyn yr amcanion strategol a gyhoeddwyd yng Nghynllun Blynyddol Estyn 2010-11 (sydd ar gael yn www.estyn.gov.uk). Dyrennir costau staff ar sail amser staff a raglenwyd yn erbyn pob Amcan Strategol. Dyrennir costau eraill (costau nad ydynt yn gostau staff, gan gynnwys dibrisiant) yn uniongyrchol i bob amcan strategol, lle bo modd, neu ar sail pro-rata yn unol â dyrannu costau staff. Caiff costau eraill eu hisgyfansymio yn Gostau gweinyddol a Chostau rhaglenni yn Nodyn 5 a 6 y cyfrifon hyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 58 i 70 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol â 2009-10 oherwydd newidiadau i amcanion blynyddol Estyn. At ddibenion cymharu, darperir Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar wahân ar gyfer 2009-10 isod:

**Datganiad o wariant net cynhwysfawr** *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2010*


| | **Alldro 2009-2010** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcanion gweithredu** | **Costau staff** | **Costau eraill (ailddatganwyd)** | **Incwm** | **Cyfanswm (ailddatganwyd)** |
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Rhaglen weithgarwch 1:** Arolygiad sectoraidd o ddarparwyr addysg | 6,254 | 5,696 | (253) | 11,697 |
| **Rhaglen weithgarwch 2:** Arolygiadau ac adolygiadau thematig | 1,104 | 407 | - | 1,511 |
| **Cyfanswm y refeniw** | **7,358** | **6,103** | **(253)** | **13,208** |

Ailddatganwyd y ffigurau uchod i gydymffurfio â'r FReM 2010-11, h.y. cafwyd gwared â'r elfen wariant Cost Cyfalaf. Mae'r holl incwm a gwariant yn deillio o weithrediadau parhaus.

## Datganiad o'r sefyllfa ariannol

*ar 31 Mawrth 2011*

| | Nodyn | 31 Mawrth 2011 | | 31 Mawrth 2010 (ailddatganwyd) | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Eiddo, cyfarpar ac offer | 7 | **93** | | 177 | |
| Asedau anniriaethol | 8 | **40** | | 66 | |
| **Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol** | | | **133** | | **243** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 10 | **83** | | 512 | |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 11 | **1,305** | | 790 | |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | | **1,388** | | **1,302** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | **1,521** | | **1,545** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 12 | **(1,530)** | | (2,604) | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(1,530)** | | **(2,604)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **(9)** | | **(1,059)** |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | | | |
| Darpariaethau: | | | | (351) | |
| O fewn blwyddyn | 13 | **43** | | | |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 13 | **170** | | | |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | **(213)** | | **(351)** |
| **Asesau llai rhwymedigaethau** | | | **(222)** | | **(1,410)** |
| **Ecwiti'r trethdalwr** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | **(222)** | | (1,410) | |
| **Cyfanswm ecwiti'r trethdalwr** | | | **(222)** | | **(1,410)** |



**Ann D Keane**
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru a Swyddog Cyfrifo

15 Gorffennaf 2011

## **Datganiad llif arian** *ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011*

| | Nodyn | 2010-11 | 2009-10 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | **£000** | **£000** |
| | | | **(ailddatgan wyd)** |
| Cost gweithredu net | | (11,312) | (13,208) |
| *Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:* | | | |
| Dibrisiant | 7 ac 8 | 120 | 450 |
| Cyflogau (darpariaeth) | 4 | 37 | 99 |
| Costau eraill (darpariaeth) | 5 | (35) | 200 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 12 | (1,074) | 242 |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy | 10 | 429 | (21) |
| Llai symudiadau nad ydynt yn mynd trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr e.e. credydwyr cyfalaf | 8 | (10) | (93) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 13 | (140) | (85) |
| **All-lif net arian parod o weithgareddau gweithredu** | | **(11,985)** | **(12,416)** |
| **Llifau arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, cyfarpar ac offer | 7 | - | (36) |
| Prynu asedau anniriaethol | 8 | - | |
| **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **-** | **(36)** |
| **Llifau arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| **Ariannu net (gan Lywodraeth Cymru)** | | **12,500** | **13,190** |
| **Cynnydd / (gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | 11 | **515** | **738** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 12 | **790** | **52** |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 12 | **1,305** | **790** |

Nodyn: Nid yw prynu asedau anniriaethol yn cynnwys credydwyr o £10,000.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 58 i 70 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o newidiadau i ecwiti trethdalwyr

*ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011*

| | | 2010-11<br>£000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2010** | | (1,410) |
| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr o 2010-11** | | |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | (11,312) | |
| Cyfanswm yr incwm a'r costau cydnabyddedig er gyfer 2010-11 | (11,312) | |
| Cyllid net Llywodraeth Cymru | 12,500 | |
| | | 1,188 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2011** | | **(222)** |

## Datganiad o gostau gweithredu yn ôl nodau ac amcanion Adrannol

*ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011*

Ni ddarperir y datganiad uchod gan y rhoddir manylion costau gweithredu yn ôl amcanion strategol Estyn eisoes yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr (gweler tudalen 53).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 58 i 70 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

### 1 Datganiad o bolisïau cyfrifo

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2010-11 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifo a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi cael eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Pan fydd FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae Estyn wedi dewis y polisi yr oedd yn ei farnu oedd y polisi mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol Estyn, at ddibenion roi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan Estyn ar gyfer 2010-11 isod. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r cyfrifon.

Yn ogystal, adroddir ar y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar sail Cais am Adnoddau ac mae'r nodiadau ategol yn dangos Alldro yn erbyn yr Amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net. Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a'r nodiadau ategol yn dadansoddi incwm a gwariant Estyn yn ôl yr Amcanion Strategol y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

### 1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon hyn dan y confensiwn cost hanesyddol, ac fe'u haddaswyd i roi cyfrif am ailbrisio asedau sefydlog ac asedau anniriaethol yn ôl eu gwerth teg.

### 1.2 Eiddo, cyfarpar ac offer ac asedau anniriaethol

Caiff gwariant ei droi'n gyfalaf lle disgwylir i oes ddefnyddiol yr ased a brynwyd ymestyn dros nifer o flynyddoedd a bod cost yr eitem(au) dros £1,000. Dangosir asedau sefydlog yn ôl eu cost llai lwfans ar gyfer dibrisiant (gweler nodyn 1.3 isod). Ym marn Estyn, nid oes gwahaniaeth perthnasol rhwng gwerth net hanesyddol yr asedau ar bapur a'u gwerth teg.

### 1.3 Dibrisiant

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifwyd i ddileu gwerth asedau sefydlog trwy randaliadau cyfartal dros yr oes ddefnyddiol amcan sydd ganddynt. Codir dibrisiant blwyddyn gyfan ym mlwyddyn prynu ased. Mae eu hoes fel a ganlyn:

- Offer TG 3-5 mlynedd
- Dodrefn a gosodiadau 5 mlynedd
- Offer swyddfa 5 mlynedd
- Systemau TG 5 mlynedd
- Asedau anniriaethol 3 blynedd

Lle'r amherir ar ased sefydlog diriaethol, codir cost yr amhariad net ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y digwyddodd.

### 1.4 Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau sy’n debygol neu’n sicr o godi ond nad yw’r swm neu’r dyddiadau y byddant yn codi yn sicr. Caiff darpariaethau eu creu neu eu cynyddu trwy godi tâl ar wariant refeniw yn ystod y flwyddyn y cawsant eu creu. Pan eir i’r gwariant yn wirioneddol, codir tâl yn uniongyrchol ar y ddarpariaeth. Caiff y darpariaethau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn eu hystyried yn rhai byrdymor ac yn destun adolygiad blynyddol, felly cânt eu mynegi yn ôl eu prisiau presennol h.y. heb eu disgowntio.

### 1.5 Incwm gweithredu

Incwm gweithredu yw incwm sy’n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu Estyn. Yn bennaf, mae’n cynnwys ffioedd a thaliadau am wasanaethau a ddarparwyd (ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol) ac incwm amrywiol arall. Mae Trysorlys EM wedi cyhoeddi cyfarwyddeb derbynebau sy’n caniatáu i Estyn gadw unrhyw gyfryw dderbynebau.

### 1.6 Costau staff a chostau eraill

Dadansoddir y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr rhwng Costau Staff a Chostau eraill, a osodir yn erbyn pedwar amcan strategol Estyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi un gyllideb i Estyn ar gyfer gwariant refeniw a chyllideb ar gyfer Dibrisiant. Mae gan Estyn yr hawl i ddyrannu ei gyllideb refeniw yn unol â’i ofynion gweithredol. Er mwyn tryloywder, adroddir ar ‘Gostau eraill’ yn Nodiadau 5 a 6 yn erbyn isgyfansymiau ar gyfer Gwariant Gweinyddol a Gwariant Rhaglenni.

### 1.7 Treth Ar Werth

Mae’r rhan fwyaf o weithgareddau Estyn y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw’r dreth allosod yn berthnasol, ac nid yw treth fewnbwn ar bryniannau yn adferadwy. Codir cost TAW anadferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei gynnwys yng nghost prynu gyfalafog asedau sefydlog. Lle codir treth allosod neu fod TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb TAW.

### 1.8 Pensiynau

Mae darpariaethau Cynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gymwys i gyn-weithwyr a gweithwyr presennol, ac fe’u disgrifir yn Nodyn 4. Nid yw elfennau buddion diffiniedig cynlluniau yn cael eu hariannu, ac maent yn anghyfrannol ac eithrio mewn perthynas â buddion dibynyddion. Mae Estyn yn cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y bydd yn elwa o wasanaethau gweithwyr trwy dalu i Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnol. Codir tâl ar y PCSPS am y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol. O ran elfennau cyfraniadau diffiniedig y cynlluniau, mae Estyn yn cydnabod y cyfraniadau sy’n daladwy am y flwyddyn.

### 1.9 Costau ymadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i Estyn dalu cost ychwanegol buddion sydd ar ben buddion arferol y PCSPS mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Estyn yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fo'r rhwymedigaeth yn codi.

### 1.10 Prydlesi gweithredu

Codir taliadau rhentu prydlesi gweithredu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

## 2 Cysoni alldro adnoddau net i gost gweithredu net

| | **2010-11 £000** | 2009-10 £000 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | **11,312** | 13,208 |
| **Cost gweithredu net** | **11,312** | 13,208 |

Mae'r alldro adnoddau net yn cynrychioli gofyniad adnoddau net Estyn ar gyfer y flwyddyn yn erbyn yr Amcangyfrif. Y gost gweithredu net yw cyfanswm y gwariant a'r incwm sy'n ymddangos yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### 2.1 Alldro yn erbyn yr amcangyfrif o gostau eraill (nad ydynt yn gostau staff)

| | **Nodyn** | **Amcangyfrif 2010-11 £000** | **Alldro 2010-11 £000** | 2009-10 (ailddatganwyd) £000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau eraill gros | 5 | 5,240 | 4,088 | 6,103 |
| Incwm | 6 | - | (138) | (253) |
| **Cyfanswm net alldro adnoddau** | | **5,240** | **3,950** | 5,850 |

Mae symud i fframwaith arolygu mwy cymesur, gydag arolygiadau byrrach a staff Estyn yn cynnal tua thraean o'r arolygiadau o ysgolion yn 2010-11 (yn hytrach na chael eu cynnal gan arolygwyr allanol dan gontract), wedi arwain at arbedion blynyddol o oddeutu £1.2 miliwn.

Cymerwyd yr amcangyfrif uchod o ddyraniad Estyn o'i linell gyllideb unigol ar gyfer gwariant refeniw yn 2010-11.

## 3 Cysoni alldro adnoddau net yn ôl gofyniad arian parod net

| | Nodyn | Amcangyfrif | **Alldro 2010-11** | **Alldro o gymharu â'r amcan arbediad/ (dros ben)** | 2009-10 (ailddatgan-wyd) |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **£000** | **£000** | **£000** | |
| **Cyfanswm alldro adnoddau net** | | 13,080 | 11,312 | (1,768) | 13,208 |
| Caffael eiddo, cyfarpar ac offer | 7 ac 8 | 425 | 10 | (415) | 129 |
| *Addasiadau croniadau:* | | | | | |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | | (400) | (118) | 282 | (450) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio ar wahân i arian parod | | - | 645 | 645 | (221) |
| Defnyddio darpariaeth | 12 | - | (140) | (140) | (85) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **13,125** | **11,709** | **(1,396)** | **12,581** |

## 4 Costau a niferoedd staff

Mae costau staff yn cynnwys:

| | Cyfanswm 2010-11 £000oedd | Staff wedi'u cyflogi'n barhaol | Eraill | 2009-2010 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 4,890 | 4,890 | | 4,686 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 451 | 451 | | 447 |
| Costau pensiwn eraill | 1,018 | 1,018 | | 990 |
| **Cyfanswm costau net** | 6,359 | 6,359 | | 6,123 |
| Ynghyd â: | | | | |
| Secondeion i mewn | 749 | - | 749 | 763 |
| Secondeion allan | (142) | (142) | - | (87) |
| Staff asiantaeth | 289 | | 289 | 303 |
| Iawndaliadau | - | - | | 42 |
| Costau ymadael yn gynnar - yn y flwyddyn | 70 | 70 | | 115 |
| Costau ymadael yn gynnar - darpariaeth | 37 | 37 | | 99 |
| **Cyfanswm** | **7,362** | **6,324** | **1,038** | **7,358** |

Rhoddwyd iawndal i ddau unigolyn dan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil (CSCS) - gweler yr Adroddiad ar Gyflogau am fanylion. Mae'r PCSPS yn gynllun budd diffiniedig aml-gyflogwr nad yw'n cael ei ariannu, ond nid yw Estyn yn gallu nodi'i gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2007. Gellir cael manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (http://www.civilservice-pensions.gov.uk/).

**Adrodd ar gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau iawndal eraill - pecynnau ymadael**

| Band costau'r pecyn ymadael | Nifer y swyddi a ddilewyd yn orforol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band costau |
|---|---|---|---|
| **<£10,000** | - | - | - |
| **£10,000 - £25,000** | - | - | - |
| **£25,000 - £50,000** | - | 3 | 3 |
| **£50,000 - £100,000** | - | - | - |
| **£100,000 - £150,000** | - | - | - |
| **£150,000 - £200,000** | - | - | - |
| **Cyfanswm y pecynnau ymadael** | 0 | 3 | 3 |
| **Cyfanswm y gost adnoddau/£000** | 0 | 3 | £90 - £105 |

Talwyd taliadau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a luniwyd gan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Caiff costau ymadael eu cyfrifo'n llawn yn ystod y flwyddyn ymadael. Pan fydd yr adran wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr adran ac nid gan gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil. Telir costau ymddeol yn sgil iechyd gwael gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

Ar gyfer 2010-101 roedd cyfraniadau cyflogwyr o £1,018,000 yn daladwy i'r PCSPS (2009-10 £990,000) ar un o'r pedair cyfradd yn yr ystod 17.1% i 25.5% o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Bydd Actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun. Mae cyfraddau'r cyfraniadau'n adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan delir y costau mewn gwirionedd, ac maent yn adlewyrchu profiad blaenorol y cynllun. Nid oes gan Estyn unrhyw Gyfrifon Pensiwn Partneriaeth.

Roedd cyfartaledd nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi (gan gynnwys uwch reolwyr) yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| Nifer y staff parhaol | Nifer y staff eraill | Cyfanswm y staff 2010-11 | Cyfanswm y staff 2009-10 |
|---|---|---|---|
| 94 | 19 | 113 | 112 |

## 5 Costau eraill

| | 2010-11 £000 | 2009-10 £000 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| Rhentu dan brydlesi gweithredu:- llogi llungopïwyr | **-** | 7 |
| Rhentu dan brydlesi gweithredu:- adeiladau | **324** | 342 |
| Costau adeiladau eraill | **319** | 346 |
| TG a thelathrebu | **627** | 635 |
| Gwasanaethau canolog Llywodraeth Cymru | **8** | 8 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | **326** | 301 |
| Tâl yr archwilydd – archwilio'r cyfrifon | **32** | 40 |
| Gwariant gweinyddol cyffredinol | **324** | 523 |
| **Eitemau heblaw am arian parod:** | | |
| - darpariaeth ar gyfer costau adnewyddu adeiladau | **(35)** | 200 |
| - dibrisiant asedau diriaethol | **84** | 414 |
| - dibrisiant asedau anniriaethol | **36** | 36 |
| | **2,045** | 2,852 |
| Llai: Incwm gweithredu (Nodyn 8) | **(138)** | (253) |
| **Isgyfanswm: Costau gweinyddol net** | **1,907** | **2,599** |
| | | |
| Arolygiadau addysg ôl-16 a chostau cysylltiedig | **8** | 249 |
| Arolygiadau ysgolion a chostau cysylltiedig | **1,590** | 2,656 |
| Arolygiadau awdurdodau lleol a chostau cysylltiedig[4] | **81** | 226 |
| Costau cyffredinol yn ymwneud ag arolygu | **336** | 87 |
| Costau cylch gwaith | **28** | 33 |
| **Isgyfanswm: Costau rhaglenni** | **2,043** | **3,251** |
| **Cyfanswm y costau eraill** | **3,950** | **5,850** |

Ailddatganwyd costau 2009-10 er mwyn cymharu o un flwyddyn i'r llall.
Cyfeiriwch at Nodyn 1.6 am ragor o wybodaeth.

[4] Yn cynnwys taliadau a wnaed i archwilydd allanol Estyn o ran gwaith arolygu ar y cyd, h.y. taliadau o ran gwasanaethau heblaw gwasanaethau archwilio, yn dod i gyfanswm o £70,000 (2010-2011) a £158,000 (2009-2010)

## 6 Incwm

| | 2010-2011 £000 | 2009-2010 £000 |
|---|---|---|
| **Incwm** | | |
| - ailgodi tâl am waith arolygu* | (136) | (247) |
| - ffioedd cofrestru | (2) | (5) |
| - amrywiol | - | (1) |
| **Cyfanswm** | **(138)** | **(253)** |

Gan fod swm yr incwm a geir o ffïoedd cofrestru yn fychan ac y gall amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, caiff ei eithrio o ffigurau'r Amcangyfrif yn y Datganiad o Alldro'r Adnoddau.

* Incwm i'w dderbyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) o dan delerau'r Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Estyn a DWP mewn perthynas ag arolygu rhaglenni dysgu yn y gwaith yng Nghymru.

## 7 Eiddo, cyfarpar ac offer

| | Systemau TG £000 | Offer TG £000 | Dodrefn a gosodia-dau £000 | Offer swyddfa £000 | Cyfan-swm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | 1,589 | 419 | 329 | 90 | 2,427 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - | - |
| Gwarediadau | (1,393) | (7) | (69) | - | (1,469) |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | **196** | **412** | **260** | **90** | **958** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2010 | 1,471 | 372 | 320 | 87 | 2,250 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | 39 | 37 | 5 | 3 | 84 |
| Gwarediadau | (1,393) | (7) | (69) | - | (1,469) |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | **117** | **402** | **256** | **90** | **865** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | **79** | **10** | **4** | **0** | **93** |
| Ar 1 Ebrill 2010 | **118** | **47** | **9** | **3** | **177** |

Nodyn: Mae'r gwarediadau dan systemau TG yn ymwneud â dadgomisiynu system arolygu a chronfa ddata 'Athene' Estyn yn ystod 2010, ar ôl y cylch arolygu chwe blynedd blaenorol. Mae'r cylch arolygu newydd yn cynnwys adroddiadau arolygu symlach a gofyniadau symlach o ran y gronfa ddata.

## 8 Asedau anniriaethol

| | Meddalwedd £000 | DVD £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Cost** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2010** | 11 | **99** | 110 |
| **Ychwanegiadau** | - | 10 | 10 |
| **Gwarediadau** | - | | - |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | **11** | **109** | **120** |
| **Dibrisiant** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2010** | 5 | 39 | 44 |
| **Codwyd yn ystod y flwyddyn** | 2 | 34 | 36 |
| **Gwarediadau** | - | | - |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | **7** | **73** | **80** |
| **Gwerth llyfr net** | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2011** | **4** | **36** | **40** |
| **Ar 1 Ebrill 2010** | **6** | **60** | **66** |

Nodyn: Mae credydwyr cyfalaf o £10,000 wedi'u cynnwys yng nghyfanswm yr Ychwanegiadau ar gyfer 2010-1.

## 9 Offerynnau ariannol

Er bod Estyn yn derbyn ei arian trwy Lywodraeth Cymru ac nid trwy'r amcangyfrifon cyflenwi arferol, mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai ariannol yn unol â'u gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig, ac felly mae Estyn yn agored i ychydig iawn o berygl o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad.  Nid yw Estyn yn dal offerynnau ariannol sy'n gymhleth neu sy'n chwarae rôl tymor canolig i dymor hir ym mhroffil risg ariannol Estyn.

### Risg hylifedd

Mae Estyn yn dibynnu'n bennaf ar gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ofynion adnoddau ac nid yw felly'n agored i risgiau hylifedd sylweddol.

### Risg o ran cyfradd llog neu arian tramor

Nid yw Estyn yn dal unrhyw adneuon perthnasol, ac mae'r holl asedau a rhwymedigaethau yn cael eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu risg o ran arian tramor.

## 10 Symiau derbyniadwy masnach ac asedau cyfredol eraill

### 10a Dadansoddiad yn ôl math

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau derbyniadwy masnach | **15** | 141 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **37** | 93 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **31** | 278 |
| **Cyfanswm** | **83** | 512 |

### 10b Balansau Rhyng-lywodraeth

Dyledwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | Ar 31 Mawrth 2011 £000 | Ar 31 Mawrth 2010 £000 |
|---|---|---|
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | **15** | 229 |
| Balansau ag awdurdodau lleol | **13** | 147 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | **55** | 136 |
| **Cyfanswm** | **83** | 512 |

## 11 Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **790** | 52 |
| Newid net mewn balansau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | **515** | 738 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,305** | 790 |

Mae Estyn yn defnyddio Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ac yn gweithredu dau gyfrif banc. Defnyddir Citi Bank i gasglu incwm BACS ac mae'r cyfrif NatWest yn darparu gwasanaeth talu BACS a chyfleusterau bancio lleol. Roedd y balansau canlynol ar gael ar 31 Mawrth:

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 |
|---|---|---|
| Balansau yn Citi Bank | **1,305** | - |
| Balansau yn NatWest | **-** | - |
| Balansau yn OPG | **-** | 790 |
| | **1,305** | 790 |

## 12 Symiau taladwy masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

### 12a Dadansoddiad yn ôl math

| | 31 Mawrth 2011 £000 | 31 Mawrth 2010 £000 (ailddatganwyd) |
|---|---|---|
| Cyfansymiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | |
| Symiau taladwy masnach | **88** | 603 |
| Cyllid y gyflogres | **544** | 1,107 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | **898** | 894 |
| | **1,530** | 2,604 |

### 12b Balansau Rhyng-lywodraeth

| | Ar 31 Mawrth 2011 £000 | Ar 31 Mawrth 2010 £000 |
|---|---|---|
| Balansau â chyrff eraill llywodraeth ganolog | **779** | 1,020 |
| Balansau ag awdurdodau lleol | **94** | 133 |
| Balansau â chyrff y tu allan i'r llywodraeth | **657** | 1,451 |
| **Cyfanswm** | **1,530** | 2,604 |

## 13 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

**Adnewyddu adeiladau:** Rhwymedigaethau sy'n codi ar gyfer adfer eiddo wedi'i brydlesu i'w gyflwr gwreiddiol adeg terfynu prydles

**Ymadael yn gynnar:** Rhwymedigaethau i dalu costau pensiwn staff y dyfodol sy'n gadael Estyn o dan gynllun ymddeoliad cynnar y Gwasanaeth Sifil

| Darpariaethau | Adnewyddu adeiladau £000 | Ymadael yn gynnar £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2010 | | | |
| - O fewn blwyddyn | **252** | **33** | **285** |
| - Rhwng dwy a phum mlynedd | **-** | **66** | **66** |
| - Ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** | |
| Cynnydd / (Gostyngiad) yn y ddarpariaeth | **(35)** | **37** | **2** |
| Symiau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | **(107)** | **(33)** | **(140)** |
| Darpariaeth sy'n weddill: | | | |
| - Cyn pen blwyddyn | **-** | **43** | **43** |
| - Rhwng dwy a phum mlynedd | **110** | **60** | **170** |
| - Ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** | **-** |
| | **110** | **103** | **213** |

## 14 Ymrwymiadau cyfalaf

Nid oes unrhyw ymrwymiadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2011.

## 15 Ymrwymiadau o dan brydlesi

### Prydlesi gweithredu

| | **2010-11 £000** | | 2009-10 £000 | |
|---|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau | Arall | Tir ac Adeiladau | Arall |
| Ar 31 Mawrth 2011 roedd Estyn yn ymrwymedig i wneud y taliadau canlynol yn ystod y flwyddyn nesaf mewn perthynas â phrydlesi gweithredu yn dod i ben: | | | | |
| - cyn pen blwyddyn | **108** | **-** | 290 | 2 |
| - rhwng dwy a phum mlynedd | **428** | **-** | | |
| - ar ôl pum mlynedd | **-** | **-** | - | - |
| | **536** | **-** | 290 | 2 |

## 16 Ymrwymiadau eraill

Mae Estyn wedi cytuno ar gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesi gweithredu) gwerth £309,166 ar 31 Mawrth 2011.

## 17 Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol ar 31 Mawrth 2011.

## 18 Trafodion â phartïon cysylltiedig

Bu nifer fach o drafodion perthnasol yn ystod y flwyddyn rhwng Estyn a Llywodraeth Cymru a sefydliadau canlynol y Llywodraeth yr ystyrir eu bod yn bartïon cysylltiedig:

- Swyddfa'r Tâl-feistr Cyffredinol
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Nid ymgymerodd unrhyw aelod o'r bwrdd, rheolwr allweddol na phartïon cysylltiedig eraill ag unrhyw drafodion perthnasol gydag Estyn yn ystod y flwyddyn.

## 19 Digwyddiadau ôl-fantolen

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y fantolen sy'n effeithio ar ddeall y datganiadau ariannol hyn.